

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

50/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

03/05/2023

Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o Raglen y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o
Raglen y Blynyddoedd Cynnar
Adroddiad Terfynmol

Geof Andrews, Tom Bajjada, Joseff Howells, Kerry KilBride, Dr
Nick Morgan, Maya Richardson, Carly Wise / Miller Research
Heledd Bebb, Nia Bryer / OB3
Meurig Roberts

Adroddiad Ymchwil Llawn: Andrews, G; Bajjada, T; Howells, J; KilBride, K;
Morgan, N; Richardson, M; Wise, C; Bebb, H; Bryer, N; Roberts, M; (2023).
*Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o Raglen y
Blynyddoedd Cynnar Adroddiad Terfynmol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR
rhif adroddiad 50/2023.

Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-recriwtio-adfer-
chodi-safonau](https://www.llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-recriwtio-adfer-chodi-safonau)

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn
Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Ymchwil Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
03000256812
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.wymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad/Cefndir	9
1.1	Cefndir	9
1.2	Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.....	9
1.3	Addysg Gynnar	10
1.4	Sail resymegol y gwerthusiad	11
1.5	Strwythur yr adroddiad	11
2.	Canfyddiadau allweddol ac argymhellion	13
3.	Methodoleg	18
3.1	Dull	18
3.2	Cyfyngiadau a heriau.....	22
4.	Beth sy'n gweithio a dulliau mewn gwledydd eraill	24
4.1	Beth sy'n Gweithio: Addysg	24
4.2	Beth sy'n Gweithio: Addysg Gynnar	25
4.3	Dulliau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig: Addysg	28
4.4	Dulliau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig: Blynyddoedd Cynnar.....	34
5.	Theori Newid	38
5.1	Trosolwg	38
5.2	Ysgogwyr y rhaglenni	40
5.3	Amcanion.....	41
5.4	Mewnbynnau, Gweithgareddau ac Allbynnau.....	42
5.5	Effeithiau.....	43
5.6	Tybiaethau.....	43
6.	Canfyddiadau	44
6.1	Perthynas â phecynnau cymorth eraill.....	44
6.2	Dosbarthiad	45
6.3	Cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol	47
6.4	Rôl partneriaid	48
6.5	Sut y cafodd y cyllid ei ddefnyddio.....	50
6.6	Capasiti Ychwanegol	54
6.7	Gwneud penderfyniadau	56
6.8	Cydweithio	57
6.9	Galluogwyr a rhwystrau capasiti ychwanegol	58

6.10	Effaith	62
6.11	Canllawiau a chydymffurfiaeth.....	64
6.12	Gwerth am arian	64
7.	Y Dyfodol.....	66
7.1	Trosolwg	66
7.2	Parhau'r gwaith.....	67

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Argymhellion	16
Tabl 4.1: Crynodeb o Ddulliau Cefnogi'r Sector Addysg	31
Tabl 4.2: Crynodeb o Ddulliau Cefnogi'r Sector Gofal Plant	36

Rhestr ffigurau

Ffigur 5.1: Theori newid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a rhaglen y Blynnyddoedd Cynnar	39
Ffigur 6.1: Capasiti staff ychwanegol, fel cyfwerth ag amser llawn, a grewyd gan y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.....	54
Ffigur 6.2: Capasiti ychwanegol yn ôl cyfrwng iaith.....	55
Ffigur 6.3: Capasiti ychwanegol yn ôl math o ysgol	56

Geirfa

Geiriau allweddol	Diffiniad
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	<p>(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo ef neu hi anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.</p> <p>(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—</p> <p>(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu</p> <p>(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.</p> <p>(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.</p> <p>(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.</p>
Arolygiaeth Gofal Cymru	Asiantaeth o dan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gofrestru ac arolygu lleoliadau gofal plant a gwasanaethau eraill yng Nghymru.
Plant sy'n Derbyn Gofal	<p>Mae 'plant sy'n derbyn gofal' yn cyfeirio at blant y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gofalu amdanynt.</p> <p>Mae plentyn yn berson sydd o dan 18 oed. Dywed Adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fod plentyn sy'n derbyn gofal gan</p>

	awdurdod lleol yn blentyn sydd yn ei ofal; neu y darperir llety iddo, am gyfnod di-dor o fwy na 24 awr, gan yr awdurdod wrth weithredu unrhyw swyddogaethau sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac eithrio swyddogaethau o dan adran 15, Rhan 4, neu adran 109, 114 neu 115.
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)	Hyfforddiant a gweithgareddau eraill a gyflawnir yn ystod gyrfa broffesiynol.
Grant Gwella Addysg (EIG)	Rhaglen gyllido yw'r Grant Gwella Addysg a luniwyd i helpu ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir yng Nghymru* wrth gyflawni gofynion sy'n ymwneud â chymarebau staff-i-ddysgwyr ar gyfer plant 3-7 oed, gofynion cadw pellter Covid-19, a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. *y cyllid ychwanegol, a ehangwyd i gynnwys lleoliadau gofal plant, am un flwyddyn yn unig
Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)	Darpariaeth addysg yw Addysg Heblaw yn yr Ysgol i ddiwallau anghenion penodol disgyblion nad ydynt, am ba bynnag reswm, yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd nac ysgol arbennig. Yn ôl y gyfraith, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn.
Cyngor y Gweithlu Addysg	Corff annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio athrawon a staff cymorth dysgu yn ysgolion a sefydliadau addysg bellach Cymru
Sector Blynyddoedd Cynnar	Mae'n cefnogi plant o'u genedigaeth at saith mlwydd oed. Mae'r sector blynyddoedd cynnar yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau i blant bach, gan gynnwys addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.
Blynyddoedd Cynnar Cymru	Sefydliad ambarél mawr, seiliedig ar aelodaeth, sy'n cefnogi'r sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru.
Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen	Y Cyfnod Sylfaen oedd y cwricwlwm datblygu i blant tair i saith oed yng Nghymru. Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno ym mlwyddyn ysgol 2022/23, mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddisodli a chyfeirir ato fel "dysgu sylfaen". Roedd

	Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at ddysgwyr 3-4 oed.
Prydau Ysgol am Ddim	Hyd at fis Medi 2022, roedd rhai dysgwyr penodol yng Nghymru, gan gynnwys y rheini mae eu rhieni'n derbyn amrywiol daliadau cymorth megis Credyd Cynhwysol, yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae Cymru ers hynny wedi cychwyn cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim yn raddol i bob dysgwr mewn ysgol gynradd, i'w gwblhau erbyn 2024. Yn aml, caiff cymhwysedd am brydau ysgol am ddim ei ddefnyddio fel dangosydd procsi o dlodi.
Cyferwerth ag Amser Llawn (FTE)	Gellir mynegi staff a gyflogir yn rhan-amser fel cyferwerth ag amser llawn i ddibenion data a chymharu. Cyfrifir hyn trwy rannu nifer oriau gwaith wythnosol gweithiwr â'r nifer o oriau mewn wythnos llawn-amser i'r cyflogwr hwnnw.
Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch	Mae statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch yn caniatáu i gynorthwydd addysgu gymryd cyfrifoldebau y tu hwnt i waith arferol cynorthwydd addysgu. Maent yn "ategu gwaith proffesiynol athrawon drwy gymryd cyfrifoldeb am weithgareddau dysgu y cytunwyd arnynt o dan system o oruchwyliaeth y cytunwyd arni. Gallai hyn gynnwys cynllunio, paratoi a chyflenwi gweithgareddau dysgu ar gyfer unigolion/grwpiau neu, yn y tymor byr, ar gyfer dosbarthiadau cyfan." ¹
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU)	Cymhwyster a gyflawnir gan fyfyrwyr rhwng 14 a 16 oed yn y Deyrnas Unedig.
Cyfnod Allweddol	Caiff cwricwlwm cenedlaethol Cymru ei rannu'n gyfnodau allweddol ar sail oedran dysgwr. Mae Cyfnod Allweddol 1 yn rhychwantu'r oeddrannau pump i saith, Cyfnod Allweddol 2 o saith i 11 oed, Cyfnod Allweddol 3 o 11 i 14, a Chyfnod Allweddol 4 o 14 i 16 oed.

¹ [Cynorthwywyr addysgu a staff cymorth \(Hwb\)](#) Gwefan Hwb

Sector a gynhelir	Ysgolion a gaiff eu cyllido a'u rheoli gan yr awdurdod addysg lleol.
Sector Gofal Plant	Mae lleoliadau gofal plant yn annibynnol ar yr awdurdod lleol, ac mae'n ofynnol i deuluoedd dalu ffioedd ar wahân. Gall lleoliadau gofal plant fod yn rhai a ariennir ac a gymeradwyir i ddarparu addysg feithrin (lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir) neu'n rhai nas ariennir. Nid yw lleoliadau nas ariennir yn darparu addysg feithrin, er bod yn rhaid iddynt fod yn gydnaws â'i hegwyddorion addysgegol yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
Athro Newydd Gymhwys	Athro neu athrawes sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac sydd yn eu blwyddyn gyntaf o addysgu. Mae athrawon newydd gymhwys yn cwblhau hyfforddiant pellach yr un pryd â'u cyfrifoldebau addysgu cyn derbyn eu cymhwyster llawn.
Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Fforwm ar gyfer cydweithio rhwng 37 o wledydd democrataidd sydd ag economïau seiliedig ar y farchnad.
Grant Datblygu Disgyblion (PDG)	Grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru i ddisgyblion sydd â'u teuluoedd ar incwm is, neu sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, neu mewn addysg heblaw yn yr ysgol.
Uned Cyfeirio Disgyblion	Math o leoliad addysgol gwahanol sy'n darparu ar gyfer dysgwyr na all fynychu ysgolion prif ffrwd am nifer o resymau, gan gynnwys gwaharddiad parhaol oherwydd anawsterau ymddygiadol neu emosiynol, cael eu gwrthod gan ysgol, neu fathau penodol o anghenion dysgu ychwanegol.
Consortia rhanbarthol/partneriaethau	Mae gan Gymru bum Consortiwm/partneriaeth addysg rhanbarthol sy'n gweithredu ar rai grwpiau o awdurdodau lleol i gydgyssylltu prosiectau traws-ranbarthol sy'n ymwneud ag addysg.
Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)	Rhaglen gyllido gan Lywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Awst 2020 i gefnogi ysgolion a lleoliadau mewn ymateb i effeithiau parhaus y pandemig Covid-19 trwy gynyddu capasiti staff. Bwriad y

	<p>capasiti ychwanegol hwn oedd darparu cymorth ychwanegol dros dro i ddysgwyr â blaenoriaeth i'w galluogi i ailgynefino â'r system ysgol, cyflawni'r potensial mae ganddynt hawl iddo, ac ailadeiladu hyder a gallu dysgu.</p>
--	---

1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Cefndir

1.1.1 Ers mis Mawrth 2020 mae addysg yng Nghymru wedi wyneb cynnwrf mawr o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19. Tarfwyd ar addysg a datblygiad dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant gan gyfnodau clo, mabwysiadu dulliau newydd o weithio, a chadw pellter cymdeithasol. Mae staff mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant a gyllidir wedi wynebu pwysau anhygoel wrth geisio cyflwyno addysg i'r safonau angenrheidiol. Mae absenoldebau o leoliadau addysg o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 yn dal i effeithio ar y sector gan ychwanegu at effaith cyfnodau clo ar lesiant dysgwyr a staff ac ar gynnydd academiaidd.

1.2 Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau

1.2.1 Lanswyd y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS²) ym mis Awst 2020 i gefnogi ysgolion trwy gynyddu capasiti staff. Bwriad y capasiti ychwanegol hwn oedd darparu cefnogaeth ychwanegol dros dro i ddysgwyr â blaenoriaeth er mwyn eu galluogi i ailgynefino â'r system ysgol, cyflawni'r cynnydd mae ganddynt hawl iddo, ac ailadeiladu hyder a gallu dysgu. Yn y flwyddyn ariannol 2020/21, dosbarthwyd £59.1m, gan gynnwys £3m i leoliadau gofal plant sy'n cyflwyno addysg gynnar, a dilynwyd hyn gan £68.9m yn 2021/22 (gyda £4.9m ohono i leoliadau gofal plant). Erbyn mis Gorffennaf 2022, roedd cyfanswm o £165.5m wedi cael ei ddosbarthu i ysgolion a lleoliadau meithrin nas ariennir.

1.2.2 Mae 50 y cant o ddyraniad ysgol o arian Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn seiliedig ar gyfanswm nifer y disgyblion ac mae 50 y cant

² RRRS yw'r talfyriad a ddefnyddir yn Saesneg am y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (Recruit, Recover and Raise Standards). Mae cyllid Blynnyddoedd Cynnar yn cyfeirio at y grant ychwanegol ar gyfer addysg Blynnyddoedd Cynnar a weinyddir trwy'r Grant Gwella Addysg. Mae Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynnyddoedd Cynnar yn cyfeirio at y ddwy raglen gyda'i gilydd (RRRS&EY yn Saesneg). Lle bo'r ystyr yn glir, cyfeirir at y naill neu'r llall yn yr adroddiad hwn at "y rhaglen" neu at y ddwy fel "y ddwy raglen".

yn seiliedig ar grwpiau blaenoriaeth penodol. Mae'r diffiniad o grwpiau blaenoriaeth ar gyfer y Rhaglen wedi esblygu mewn modd seiliedig ar dystiolaeth ers y dyraniad grant cychwynnol, ac mae wedi cynnwys y canlynol ar wahanol bwyntiau:

- dysgwyr ym mlwyddyn 1; dysgwyr yn mlwyddyn 7; dysgwyr ym mlwyddyn 11;
- dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg;
- dysgwyr sydd â datganiadau awdurdod lleol o Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- nifer o blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim;
- nifer o ddisgyblion o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;
- nifer o blant Sipsiwn Roma a theithwyr yn yr ysgol.

1.2.3 Yn y flwyddyn academaidd 2020/21 rhoddwyd cap o £150,000 ar uchafswm y dyraniad i bob ysgol. Yn 2021/22 a 2022/23 roedd y cap hwn yn £125,000.

1.3 Addysg Gynnar

1.3.1 Er mwyn darparu cymorth pellach i ddysgwyr mewn addysg gynnar (3-7 oed) trefnwyd bod grant ychwanegol o £13m ar gael, a chafodd ei gweinyddu trwy'r Grant Gwellu Addysg yn y flwyddyn academaidd 2021/22.³ Roedd £10m o'r cyllid hwn ar gael i leoliadau a gynhelir (ysgolion gyda dosbarthiadau ar gyfer Meithrin at Flwyddyn 2) a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (lleoliadau gofal plant a gaiff eu hariannu, gan yr awdurdod lleol, i ddarparu addysg feithrin). Roedd £3m ar gael i leoliadau ehangach gofal plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant, nad ydynt yn darparu addysg feithrin ond y disgwylir iddynt (fel yr amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol⁴)

³ Ers mis Medi 2022, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei ddisodli gan y Cwricwlwm i Gymru sydd â chontinwwm o oeddrannau dysgu 3-16. Defnyddir addysg gynnar i gyfeirio at addysg ar gyfer yr oeddrannau 3-7 drwy'r adroddiad hwn

⁴ [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gfer gofal plant wedi ei reoeiddio](#)

ddeall a gweithredu egwyddorion addysgegol addysg gynnar yn eu darpariaeth.

1.4 Sail resymegol y gwerthusiad

1.4.1 Prif nod y gwerthusiad hwn oedd darparu tystiolaeth yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch ymateb parhaus Llywodraeth Cymru wrth helpu ysgolion a lleoliadau gofal plant i adfer o effeithiau tarfol COVID-19 ar ddysgu a llesiant. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys ceisio dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd y rhaglenni eu gweithredu er mwyn:

- adnabod y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd gan ysgolion/leoliadau gofal plant/awdurdodau lleol/rhanbarthau/partneriaethau
- asesu'r dulliau sydd/a oedd fwyaf effeithiol yn eu cyd-destunau cymharol
- dangos gwerth y rhaglen a'r buddsoddiad
- Darparu tystiolaeth ar effaith cyllid ar ddysgwyr, gan alluogi cynigion yn y dyfodol i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y meysydd anghenion a/neu'r dulliau mwyaf effeithiol.

1.5 Strwythur yr adroddiad

1.5.1 Yr adroddiad hwn yw prif allbwn y gwerthusiad o'r ddwy raglen – Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar amcanion y gwerthusiad a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym manyleb y tendr ac mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn, gydag:

- Adran 2 yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion.
- Adran 3 yn amlinellu'r dull methodolegol a ddefnyddiwyd drwy gydol y gwerthusiad.
- Adran 4 yn archwilio'r hyn y cydnabyddir ei fod yn gweithio wrth gefnogi addysg mewn llenyddiaeth berthnasol, a disgrifio

dulliau a gymerir mewn gwledydd eraill i ymateb i heriau Covid-19.

- Adran 5 yn nodi'r Theori Newid sy'n sail i raglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a rhaglen y Blynnyddoedd Cynnar.
- Adran 6 yn disgrifio ac asesu'r ffordd y gweithredwyd y grantiau.
- Adran 7 yn cynnwys gwersi a ddysgwyd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

2. Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

2.1.1 Wrth adolygu llenyddiaeth ryngwladol, gwelwn fod y ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi dysgwyr, plant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar bedwar maes:

- Dysgu
 - Dull gweithredu effeithiol yw canolbwyntio ymyraethau dysgu ar grwpiau bach a thiwтора. O ran cynnwys, y ffordd orau o gyflawni cynnydd dysgwyr yw llenwi bylchau penodol fel y gall dysgwyr barhau i ddysgu deunyddiau addas i'r oedran yn hytrach nag "ailaddysgu" testunau a gollwyd yn gyfan gwbl.
- Dulliau cyfannol
 - Mae cynnwys pob dysgwyr yn gofyn am dargedu cymorth yn fwriadol at anghenion dysgu ac emosiynol-gymdeithasol penodol, gyda sylw'n cael ei roi i degwch. Mae llesiant a pharodrwydd i ddysgu yn feysydd sylfaenol.
- Tegwch
 - Canolbwyntio cyllid ac adnoddau ar grwpiau mwy bregus o fyfyrwyr. Mae rhywfaint o dystiolaeth o effeithiolrwydd cyffredinol gwario ar addysg gynnar (ond nid o angenrheidrwydd mewn cyd-destun tymor byr neu bandemig).
- Gweithlu
 - Annog ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau gofal plant i gydweithio a rhannu'r arferion gorau / adnoddau gydag ysgolion a lleoliadau gofal plant eraill, adrannau llywodraeth ar bob lefel, a sefydliadu. Mae buddsoddi yn y gweithlu addysg yn bwysig i ddatblygiad a chydnerthedd systemau addysg trwy dyfu a chadw'r gweithlu a darparu hyfforddiant parhaus iddynt.

2.1.2 Dengys data monitro arolwg o 993 o ysgolion yng Nghymru fod y ddwy raglen, Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynyddoedd

Cynnar, wedi cynyddu capasiti staff, gydag amcangyfrif o gynnydd o **2,452 cyfwerth ag amser llawn**⁵ ar draws pob ysgol yng Nghymru hyd at fis Ionawr 2022. O'r cynnydd mewn capasiti, mae 62.2 y cant yn staff cymorth a 29.9 y cant yn athrawon. Ar gyfartaledd, roedd pob ysgol a ymatebodd wedi ennill 1.05 aelod o staff cymorth cyfwerth ag amser llawn, a 0.5 athro cyfwerth ag amser llawn. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg ychydig yn fwy tebygol o wario ar oriau athrawon (1 athro cyfwerth ag amser llawn i bob 1.5 staff cymorth cyfwerth ag amser llawn) nag ysgolion cyfrwng Saesneg (1 athro cyfwerth ag amser llawn i bob 2.4 staff cymorth cyfwerth ag amser llawn). Mae'r data ar gyfer ysgolion yn unig gan nad oedd lleoliadau gofal plant wedi eu cynnwys yn yr ymarferiad monitro.

- 2.1.3 Mae'r ymyraethau mwyaf cyffredin a gyflwynwyd i ddysgwyr mewn ysgolion wedi canolbwyntio ar lythrennedd (91.2 y cant o ysgolion) a llesiant (85.9 y cant o ysgolion).
- 2.1.4 Nid oes unrhyw ddata cyson eto ar effaith y ddwy raglen ar lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a datblygiad sgiliau dysgu annibynnol. Awgryma adborth ansoddol mai cefnogi llesiant yw'r hyn sydd wedi bod fwyaf effeithiol a mwyaf defnyddiol wrth ymdrin â'r problemau dysgu a achoswyd gan Covid-19.
- 2.1.5 Roedd ysgolion a lleoliadau gofal plant yn adrodd am effaith benodol ar sgiliau Cymraeg dysgwyr a bod hyn yn aml yn cael ei drin fel mater eilradd i ymdrin ag ef gan fod blaenoriaeth wedi ei roi i ymdrin ag ymddygiadau dysgu sylfaenol.
- 2.1.6 Unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig sydd wedi adrodd y lefelau isaf o darfu ar ddatblygiad a chynnydd dysgwyr o gymharu â lefelau cyn y pandemig.
- 2.1.7 Yn ôl cyfweiliadau gydag ysgolion a lleoliadau gofal plant, mae plant mewn addysg gynnar (3-7 oed) wedi dangos lefelau is o allu llythrennedd, iaith a chyfathrebu wrth gychwyn mewn lleoliadau a gynhelir (ysgolion a meithrinfeydd) a lleoliadau nas cynhelir (gofal

⁵ Gweler adran 6.6.1

plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant) o gymharu â galluoedd cyn y pandemig.

- 2.1.8 Er gwaethaf anogaeth yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, mae cydweithio ymysg ysgolion ac ymysg lleoliadau gofal plant hyd at gychwyn blwyddyn academaidd 2022/23 wedi bod yn gyfyngedig yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Nid oes dull cynhwysfawr o gydweithio strategol sy'n cynnwys awdurdodau lleol, consortia/partneriaethau rhanbarthol, a phartneriaid eraill addysg. Roedd graddau'r cydweithio'n amrywio ledled Cymru.
- 2.1.9 Y ffactorau allweddol y canfuwyd eu bod yn manteisio i'r eithaf ar effaith y ddwy raglen yw:
- Canolbwyntio bwriadol ar gefnogi llesiant.
 - Gweledigaeth glir yn yr ysgol, lleoliad gofal plant, neu'r awdurdod lleol o'r cychwyn ar gyfer nod y capasiti ychwanegol.
 - Targedu cymorth a dealltwriaeth at grwpiau penodol.
 - Cyflwyno ymyraethau i grwpiau o faint dosbarthiadau unigol neu lai.
 - Gweithio i gynyddu capasiti staff o gymharu ag uwchsgilio staff presennol.
- 2.1.10 Maint ysgol sy'n chwarae'r rhan fwyaf wrth benderfynu ar y swm o gyllid a dderbynnir gyda'r dewisiadau sydd ar gael i'r lleoliadau lleiaf wedi eu cyfyngu gan symiau eu grantiau. Am y rheswm hwn, mae ysgolion a lleoliadau gofal plant mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o dderbyn symiau mwy. Mae lleoliadau gwledig yn llai, ac felly'n derbyn symiau llai, ac maent wedi eu lledaenu'n ehangach yn ddaearyddol, gan greu rhwystrau rhag gweithio mewn clystyrau.
- 2.1.11 Mae'r gwahaniaeth yn y graddau mae staff ychwanegol ar gael rhwng ardaloedd trefol (mwy ar gael) a gwledig (llai ar gael) yn fwy o bryder i randdeiliaid awdurdodau lleol, ysgolion, a lleoliadau gofal plant, na'r symiau o gyllid.
- 2.1.12 Ym mhob math o leoliad ledled Cymru, mae staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac athrawon Cymraeg fel pwnc mewn

ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy anodd eu recriwtio. Mae hyn yn arwain at bryder ymysg rhanddeiliaid awdurdodau lleol ynghylch ansawdd addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac ar draws meysydd pwnc mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- 2.1.13 Mae'r canllawiau ar gyfer y ddwy raglen, Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynnyddoedd Cynnar, wedi cael eu croesawu gan randdeiliaid. Dywedodd rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad eu bod wedi bod yn gyson glir, gan nodi diben y grantiau a'r ffiniau o ran eu gwario. Mae'r hyblygrwydd roedd y canllawiau'n eu caniatáu ar lefel leol wedi galluogi ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i ymdrin â'u hanghenion gyda'r adnoddau sydd ganddynt ar gael.

Tabl 2.1: Argymhellion

1	Parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu angen, fel y caiff ei ddiffinio ar lefel ysgol a lleoliad gofal plant, ar y cyd â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol.
2	Parhau i fabwysiadu dulliau cyfannol a defnyddio hynny ag sy'n bosibl o dulliau amlasiantaethol i lwyr ddiwallu anghenion plant 3-7 oed.
3	Parhau i gefnogi addysg gynnar a gofal plant y tu allan i ysgolion, gan gynnwys lleoliadau gofal plant nas ariennir ac nas cynhelir.
4	Parhau i ganiatáu cyflwyno hyblyg ar lefel ysgol a lleoliad gofal plant er mwyn diwallu anghenion mewn ffordd effeithiol gyda'r capasiti ychwanegol sydd ar gael.
5	Parhau i ddefnyddio'r dull clir o gyflwyno canllawiau.
6	Rhoi mwy o wybodaeth ymlaen llaw i ysgolion a lleoliadau gofal plant cyn derbyn y cylid i'w galluogi i gynllunio'n fwy hirdymor.
7	Pennu bod unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan y grantiau ar gyfer cynyddu capasiti staff gyda dysgwyr, nid dim ond uwchsgilio'r gweithlu presennol.
8	Creu cysylltiadau agosach gyda chynlluniau eraill i gynyddu niferoedd staff. Er enghraifft, rhaglenni sy'n cefnogi mynediad i weithluoedd y sectorau gofal plant ac ysgolion.
9	Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i annog cydweithio a gweithio mewn clystyrau ar lefelau ysgol a lleoliadau gofal plant.
10	Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu isafswm dyraniad grant.
11	Ystyried pwysoli ychwanegol ar gyfrifiadau grant i ystyried natur wledig lleoliadau.
12	Ystyried defnyddio Mynegeion Amddifadedd Lluosog yn lle prydau ysgol am ddim fel mesur o angen.

13	Sefydlu dull cenedlaethol a chyson ar gyfer mesur anghenion lleol y tu allan i'r cohortau â blaenoriaeth, fel y gall dyraniadau grant gefnogi pob angen yn effeithiol.
14	Sicrhau casglu data dibynadwy a thrylwyr trwy gael pob ysgol a lleoliad gofal plant i fonitro'r swm o gapasiti ychwanegol, a'i gofnodi fel nifer cyfwerth ag amser llawn o staff, a maes dysgu y cafodd ei ddyrannu iddo.

3. Methodoleg

3.1 Dull

3.1.1 Gosododd Llywodraeth Cymru bum nod ar gyfer y gwerthusiadau o'r grantiau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynnyddoedd Cynnar, sef:

- Cyflawni adolygiad llenyddiaeth, gan adeiladu ar adolygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i nodi'r hyn a wyddir ynghylch beth sy'n gweithio mewn adferiad a dibyniaethau gyda phecynnau cymorth eraill ar gyfer ysgolion a gofal plant.
- Mynegi disgwyliadau ar sail tystiolaeth ynghylch sut y bydd y ddwy Raglen yn helpu ysgolion/lleoliadau gofal plant a dysgwyr i adfer a'r tybiaethau (gan gynnwys rhwystrau a hwyluswyr) sy'n sail iddynt i helpu monitro a gwerthuso a chynllunio adferiad yn y dyfodol.
- Dysgu oddi wrth weithredu'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a thystiolaeth gynnar am ei chyrhaeddiad a'i heffeithiolrwydd.
- Deall pa gymorth pellach fydd ei angen.
- Deall yr elfennau allweddol y bydd angen i ddull monitro a gwerthuso yn y dyfodol eu cynnwys.

3.1.2 Cafodd y nodau hyn eu hollti ymhellach yn gyfanswm o 45 o gwestiynau ymchwil (gweler Atodiad B). I gyflawni'r nodau hyn, aeth y gwerthusiad ati mewn dull dau-gam. Roedd Cam Un yn cynnwys ymarferiad cwmpasu helaeth, gan ymgynghori gyda llawer o'r grwpiau o randdeiliaid perthnasol i ennill dealltwriaeth gyffredinol o'r ddwy Raglen, eu cyd-destun, a'u themâu allweddol. Arweiniodd hyn at ddatblygu Theori Newid, fframweithiau gwerthuso a samplu, a'r deunyddiau ymchwil ar gyfer Cam Dau. Cwblhawyd Cam Un gydag adroddiad interim mewnol ar gyfer y grŵp llywio.

3.1.3 Roedd Cam Dau yn ymwneud â'r rhan fwyaf o'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys cyfweiliadau ansoddol manwl gyda

rhanddeiliaid. Cysylltwyd â chyfanswm o 100 o randdeiliaid yng Nghymru a chwe rhanddeiliad ar draws cyrff llywodraeth yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Rhanddeiliaid Cymru oedd:

- 51 o ysgolion a lleoliadau gofal plant
 - Sgyrsiau un-i-un gyda phrifathrawon ysgol neu benaethiaid gofal plant.
- Llywodraeth Cymru
 - Chwe chynrychiolydd dros dair sgwrs
- 30 o awdurdodau lleol
 - 20 o sgyrsiau un-i-un gyda Chyfarwyddwyr Addysg a 10 o sgyrsiau un-i-un gyda rheolwyr Blynyddoedd Cynnar lle nad yw addysg mewn gofal plant yn dod o dan y Cyfarwyddwr Addysg.
- 3 Consortïwm Rhanbarthol
 - 3 sgwrs un-i-un.
- 1 bartneriaeth addysg
 - Sgwrs un-i-un
- ESTYN
 - Sgwrs un-i-un
- Cyngor y Gweithlu Addysg
 - Sgwrs un-i-un
- 4 sefydliad ambarél gofal plant
 - 4 sgwrs un-i-un
- 3 undeb llafur
 - 1 Sgwrs un-i-un, 1 grŵp gyda dau undeb yn bresennol.

3.1.4 Trefnwyd yr holl gyfarfodydd trwy e-bost ac fe'u cynhaliwyd yn rhithiol trwy ddefnyddio MS Teams. Cafodd cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru, ESTYN, Cyngor y Gweithlu Addysg, sefydliadau ambarél gofal plant, awdurdodau lleol, undebau llafar, a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru neu grŵp llywio Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

- 3.1.5 Cafodd ysgolion a lleoliadau gofal plant eu dewis gan y tîm gwerthuso gyda sampl bwriadol ar gyfer set ddata gynrychioliadol a oedd yn adlewyrchu cyd-destunau o bob rhan o Gymru.
- 3.1.6 Roedd y sampl yn rhannu Cymru'n bedair ardal ddaearyddol. Cafodd lleoliadau addysg eu diffinio yn ôl math; gofal plant nas cynhelir ac nas ariennir, lleoliadau meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion. Cawsant eu didoli yn chwartzelau yn ôl y swm o gyllid a dderbyniwyd⁶ a'u didoli ymhellach yn ôl iaith cyfrwng. Roedd 11 o ysgolion a phum lleoliad gofal plant yr ymgynghorwyd â hwy yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Roedd dwy ysgol yn rhai cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg ynddynt.⁷ Cymerwyd gofal i gynnwys amrywiaeth o ffactorau eraill gan gynnwys y ganran o ddysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, y ganran o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, eu dulliau llywodraethu⁸, ac anghenion eraill ysgolion.
- 3.1.7 Rhwng pawb, bu'r gwerthusiad yn cyfweld â'r canlynol:
- 13 o brifathrawon ysgol uwchradd
 - 20 o brifathrawon ysgol gynradd
 - 12 o arweinwyr lleoliadau gofal plant nas cynhelir (8 gofal diwrnod llawn, 4 gofal sesiynol, 2 na chaiff eu hariannu i ddarparu addysg feithrin)
 - 3 o brifathrawon ysgolion arbennig
 - 3 o athrawon â gofal am unedau cyfeirio disgyblion⁹

⁶ Ar sail Cymru gyfan.

⁷ [Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | LLYW.CYMRU](#) Mae canllawiau newydd anstatudol wedi cael eu cyhoeddi (Rhagfyr 2021) [Datganiad Ysgrifenedig: Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg \(16 Rhagfyr 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

⁸ Esgobaethau ac awdurdodau lleol

⁹ Yr athro â gofal sy'n gyfrifiol am drefniadaeth a rheolaeth fewnol yr uned cyfeirio disgyblion, ac am gynghori ar y cynllun strategol a'i weithredu. Yn benodol, mae angen i athrawon â gofal ffurfio nodau ac amcanion, polisïau a thargedau i'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol ystyried eu mabwysiadu. [Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion: canllawiau | LLYW.CYMRU](#)

- 3.1.8 Cafodd yr 11 astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn eu dewis o'r sampl hwn a chasglwyd gwybodaeth bellach i gwblhau pob proffil.
- 3.1.9 Yn gynnar yn 2022, lluniwyd arolwg monitro gan Lywodraeth Cymru ac adolygwyd y cwestiynau drafft gan y tîm gwerthuso (Atodiad C). Dosbarthwyd yr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru i bob ysgol yng Nghymru i gasglu data ar weithredu'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Ni ddarparwyd yr arolwg i leoliadau gofal plant, felly does dim data o hwn ar gyfer lleoliadau gofal plant. Fe wnaeth 993 o ysgolion ddychwelyd yr arolwg a chafodd y canlyniadau eu dadansoddi gan y tîm gwerthuso.
- 3.1.10 Yr ymatebwyr i'r arolwg monitro oedd:
- 821 o ysgolion cynradd
 - 130 o ysgolion uwchradd
 - 16 o ysgolion 3-16
 - 16 o ysgolion arbennig
 - 7 o unedau cyfeirio disgyblion
 - 3 o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
- 3.1.11 Yn ôl ardal, nifer yr ymatebwyr oedd:
- Consortiwm Canolbarth y De (CSC) 258
 - Consortiwm Rhanbarthol y De-ddwyrain (EAS) 167
 - Consortiwm Rhanbarthol Gogledd Cymru (GWE) 268
 - Partneriaeth y Canolbarth 73
 - Partneriaeth 171
 - Castell-nedd Port Talbot¹⁰ 56
- 3.1.12 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y canfyddiadau o gam un a cham dau yr ymchwil.

¹⁰ Nid yw Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Gonsortiwm Rhanbarthol na phartneriaeth addysg

3.2 Cyfyngiadau a heriau

- 3.2.1 Gan fod llawer o'r gwaith maes gydag ysgolion yn ansoddol ei natur, mae meintiau samplau ar gyfer rhai ffactorau cyd-destunol yn fach. Nid yw'n bosibl felly llunio casgliadau meintiol ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth a nodir ym mhob dyraniad grant (gweler adran 1.3).
- 3.2.2 Mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi cael eu rhoi gyda'i gilydd yn yr ymchwil hwn, er na fydd pob dysgwr mewn lleoliadau dwyieithog yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar draws ffactorau eraill, gan gynnwys y swm o gyllid a dderbyniwyd. Mae'r dull hwn yn unol hefyd â dull y data cyfrifiad ysgolion.¹¹
- 3.2.3 Mae diffyg data cymharol ar lefel yr ysgol unigol, y lleoliad gofal plant a'r awdurdod lleol i wneud asesiadau meintiol cadarn o rai o effeithiau'r grantiau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer lleoliadau gofal plant, a'r grant a weinyddir gan y Grant Gwella Addysg mewn ysgolion. Mae hyn wedi golygu bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau ansoddol, ac ar gyfer rhai canfyddiadau, yn canolbwyntio mwy ar ysgolion o gymharu â lleoliadau gofal plant lle bo data meintiol ar gael.
- 3.2.4 Aeth gwaith maes Cam Dau ymlaen dros gyfnod estynedig o fis Mawrth 2022 hyd fis Hydref 2022, gan fod anawsterau wrth recriwtio'r sampl gofynnol wedi creu heriau o ran cyfweiliadau gydag ysgolion a lleoliadau gofal plant. Y prif achos dros hyn oedd y tarfu parhaus a achoswyd gan Covid-19. Cafodd yr oedi a'r diffyg staff ar gael ar gyfer cyfarfodydd ei briodoli i absenoldebau staff, achosion o Covid-19 mewn ysgolion a lleoliadau unigol, pwysau'r arholiadau TGAU cyntaf ers 2019 (i ysgolion uwchradd) a dychwelyd at weithgareddau pontio i flwyddyn 6 (i ysgolion cynradd). Ail achos dros oedi oedd cyndynrwydd gan rai ysgolion a lleoliadau i gymryd rhan, gyda theimlad fod eu dulliau hwy o ymdrin â'r cyllid yn cael eu hasesu, yn hytrach na bod eu barn yn cyfrannu at y gwerthuso ar lefel

¹¹ [Cyfrifiad ysgolion \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

genedlaethol. Ni chafodd y sampl ei gwblhau hyd nes derbyniwyd negeseuon pellach yn uniongyrchol gan Lywodraeth i egluro diben y gwerthuso gan y lleoliadau a dargedwyd.

4. Beth sy'n gweithio a dulliau mewn gwledydd eraill

4.1 Beth sy'n Gweithio: Addysg

- 4.1.1 Mae ymchwil rhyngwladol i effaith y pandemig Covid-19 ar gydraddoldeb a chynhwysiant mewn addysg yn pwysleisio pwysigrwydd mynd ati mewn ffordd gyfannol i gefnogi dysgwyr a'u parodrwydd i ddysgu.¹²
- 4.1.2 Dylid targedu cyllid ac adnoddau tuag at grwpiau penodol o ddysgwyr mwy difreintiedig a'u hanghenion dysgu. Mae hyn oherwydd bod dysgwyr sydd â chefnidiroedd amrywiol a difreintiedig a'r rheini o gymunedau a ymleiddiwyd yn hanesyddol yn llai tebygol o dderbyn y cymorth mae arnynt ei angen gartref.¹³
- 4.1.3 Canfuwyd bod targedu cymorth ar grwpiau o ddysgwyr mwy difreintiedig yn effeithiol wrth hyrwyddo adferiad teg, a bod yr un peth yn wir am ganolbwyntio gwario ar addysg gynnar a dysgwyr iau.¹⁴
- 4.1.4 Dengys tystiolaeth o'r Unol Daleithiau fod strategaethau traddodiadol, gan gynnwys dal dysgwyr yn ôl am flwyddyn neu ailadrodd rhannau allweddol o'r cwricwlwm yn profi'n aneffeithiol. O gymharu, mae strategaethau megis cyflymu (canolbwyntio ar addysgu dim ond yr hyn sy'n rhaid ei ddysgu, ar lefel benodol, gyda phwyslais ar sgiliau i gaffael gwybodaeth), meicroaddysgu (canolbwyntio ar grwpiau bach, gyda dysgu'n digwydd fesul darnau bach mewn ffrâm amser byr), a thiwtora (un-i-un neu grŵp bach, gellir ystyried tiwtora i fod yn

¹² [OECD, "The impact of COVID-19 on student equity and inclusion: Supporting vulnerable students during school closures and school re-openings," Tachwedd 2020](#)

¹³ "Mae cau ysgolion yn cael effaith wirioneddol ar bob myfyriwr, ond yn enwedig ar y rhai mwyaf agored i niwed sy'n fwy tebygol o wynebu rhwystrau ychwanegol. Plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel a rhieni sengl; mewnudwyr, ffoaduriaid, lleiafrifoedd ethnig a chefnidiroedd brodorol; gyda hunaniaeth rhyw a chyfeiriadedd rhywiol amrywiol; ac mae'r rhai ag anghenion addysgol arbennig yn dioddef oherwydd eu bod yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd dysgu corfforol, cymorth cymdeithasol ac emosiynol sydd ar gael mewn ysgolion a gwasanaethau ychwanegol fel prydau ysgol." [OECD, "The impact of COVID-19 on student equity and inclusion: Supporting vulnerable students during school closures and school re-openings," Tachwedd 2020](#)

¹⁴ [OECD, "Ten Principles for Effective and Equitable Educational Recovery from COVID," 2021;](#) [Save Our Future, "Averting an Education Catastrophe for the World's Children"](#)

enghraifft o feicroaddysgu) yn dangos llwyddiant wrth helpu lliniaru effaith y tarfu a achoswyd gan y pandemig.¹⁵

4.1.5 Yn ogystal, dylai gwledydd gryfhau eu dulliau o sicrhau casglu a dadansoddi data mewn modd ymatebol a thrylwyr. Mae ar systemau addysg angen gwybodaeth gyfoes o ansawdd uchel ar ddysgu a llesiant dysgwyr er mwyn gallu targedu cymorth mewn modd hyblyg ac effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun tarfu na welwyd ei debyg o'r blaen, sy'n gofyn am adnabod a gweithredu'r arferion gorau yr un pryd.¹⁶

4.1.6 Yn olaf, canfuwyd bod rhoi sylw i'r gweithlu addysg yn rhan bwysig o systemau addysg cryf a'i fod yn ffurfio elfen allweddol o ymatebion llawer o wledydd Ewrop i'r tarfu a achoswyd gan y pandemig.¹⁷ Gall hyn olygu sicrhau bod staff addysgu yn cael eu cefnogi â chanllawiau addas a thystiolaeth o strategaethau effeithiol ar gyfer ailafael mewn cynnydd ar ôl y tarfu yn sgil Covid-19, fel eu bod yn barod i addasu i angen dysgwyr. Mae'n bwysig hefyd sicrhau bod athrawon a staff yn cael eu cefnogi wrth ddatblygu a chynnal perthynas â theuluoedd a dysgwyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r mathau hyn o berthynas gymdeithasol yn gosod sail gadarn i lwyddiant strategaethau eraill, yn enwedig yng nghyd-destun dysgu o bell a defnyddio technoleg.¹⁸

4.2 Beth sy'n Gweithio: Addysg Gynnar

4.2.1 Argymhellir strategaethau cyfannol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn y sector blynyddoedd cynnar. Mae tystiolaeth fod canolbwyntio ar gael gwared ar anghydraddoldeb a gwella lles teuluoedd yn cael

¹⁵ [UNESCO, "Don't remediate, accelerate! Effective catch-up learning strategies: evidence from the United States," 2020](#)

¹⁶ [OECD, "Ten Principles for Effective and Equitable Educational Recovery from COVID," 2021](#)

¹⁷ [Save Our Future, "Averting an Education Catastrophe for the World's Children" ; Y Comisiwn Ewropeaidd, "Pathways to School Success," 2022](#)

¹⁸ [OECD, "Learning remotely when schools close: How well are students and schools prepared? Insights from PISA," 3 Ebrill, 2020](#)

effaith ar blant iau.¹⁹ Gallai hyn ofyn am weithio traws-sectorol rhwng asiantaethau llywodraeth ac ysgolion a lleoliadau gofal plant er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cydgysylltu'n dda a strategaethau effeithiol yn cael eu datblygu i symleiddio cymorth.²⁰ Mae diogelwch a llesiant meddyliol a chorfforol rhieni a rhoddwyr gofal yn arbennig o bwysig i'r plant iau, er y dylid rhoi sylw ychwanegol hefyd i amddiffyn y plant eu hunain rhag profiadau andwyol mewn plentyndod. Argymhellir dull integredig, system-gyfan er mwyn sicrhau y gall plant gael mynediad at unrhyw ffurfiau o amddiffyniad cymdeithasol neu wasanaethau cymdeithasol sydd ar gael.²¹

- 4.2.2 Yn gyffredinol, ledled y byd, roedd lleoliadau cyn ysgol gynradd ac addysg gynnar yn tueddu i gau am gyfran llai o gyfnod y pandemig Covid-19 nag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.²² Er gwaethaf hyn, ysgogodd y pandemig ailfeddwl byd-eang o ran sut y gellid defnyddio technoleg ddigidol mewn addysg a lleoliadau gofal plant ar gyfer y dysgwyr ieuengaf. Yn ystod y pandemig, defnyddiwyd dulliau digidol ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu deunyddiau, gan gynnwys deunyddiau i rieni eu defnyddio wedyn "all-lein" gyda'u plant iau, wrth i heriau dysgu o bellach amrywio yn ôl pob dysgwr ifanc. Cafodd 80 o cant o wledydd sydd â data ar gael lai nag awr bob dydd o weithgareddau amser-real, rhyngweithiol pan oedd ysgolion wedi cau. Roedd diffyg mynediad, neu lai o fynediad, at dechnoleg ddigidol o deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn gwaethygu'r anghydraddoldeb a oedd eisoes yn bod. Er bod heriau wrth ddefnyddio dulliau digidol, megis mynediad, mae'n haws i ddysgwyr iau gael eu gadael ar ôl.²³

¹⁹ Adrijana Visnjic-Jevtic et al., "Policies and practices of early childhood education and care during the COVID-19 pandemic: Perspectives from five countries," *Journal of Childhood, Education, & Society*, 2021; "Strategic Guidelines to Prioritize Early Childhood Development in the COVID-19 Response," UNICEF, 2020 [Early Childhood Development and Learning During Crisis \(COVID-19\) | UNICEF](#)

²⁰ Adran Addysg Lloegr, "School Recovery Strategies: Year 1 findings," Jan 2022

²¹ [Early Childhood Development and Learning During Crisis \(COVID-19\) | UNICEF](#)

²² [Using Digital Technologies for Early Education during COVID-19," OECD, 2021](#)

²³ Adrijana Visnjic-Jevtic et al., "Policies and practices of early childhood education and care during the COVID-19 pandemic: Perspectives from five countries," *Journal of Childhood, Education, & Society*, 2021

- 4.2.3 O ganlyniad, mae tri chwarter y gwledydd a arolygwyd gan yr OECD wedi newid y ffordd maent yn defnyddio technoleg yn eu systemau addysg gynnar ers y cyfnodau clo cyntaf yn 2020.²⁴ Mae dulliau gweithredu diwygiedig gwledydd yn blaenoriaethu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a mynediad at ddulliau digidol sydd wedi eu llunio'n benodol ar gyfer y dysgwyr ieuengaf. Mae'r rhain yn ymdrechion o'r newydd i ymdrin â'r risgiau o ddibynnu ar ddulliau digidol i ddysgwyr iau gan ddal gafael ar ddulliau ar sail ddigidol.
- 4.2.4 Mae datblygu gweithluoedd yn fwy cyffredinol wedi bod ymysg yr hyn mae'r ymateb i'r pandemig wedi canolbwyntio arno yn y sector. Roedd recriwtio a chadw staff wedi bod yn broblem mewn llawer o wledydd cyn y pandemig ac mae graddfa'r broblem yn parhau i dyfu.²⁵ Mae'n bwysig sicrhau bod gan staff presennol, a darpar staff, blynyddoedd cynnar ddewisiadau ar gyfer camu ymlaen yn broffesiynol a'u bod yn deall y dewisiadau hynny. Dylai cyflogau a buddion amrywio yn ôl gofynion y swydd, ond dylent i gyd gynnig sail isafswm sy'n ddigonol ar gyfer costau byw a dylent gynnwys amser paratoi a chynllunio yn ogystal ag amser a dreulir yn rhyngweithio'n uniongyrchol â dysgwyr.²⁶

²⁴ "Using Digital Technologies for Early Education during COVID-19," OECD, 2021

²⁵ "[Impact of COVID-19 on Early Childhood Education & Care](#)," UK Parliament, 2021

²⁶ "[Early childhood education and care workforce development](#)," OECD, 2022

4.3 Dulliau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig: Addysg

- 4.3.1 Aeth Lloegr ati mewn ffordd driphlyg, gan ganolbwyntio ar 1) gwella ansawdd addysgu; 2) targedu cymorth a thiwtora trwy'r Rhaglen Diwtora Cenedlaethol; a 3) ariannu amser ychwanegol ar gyfer grwpiau dethol o ddysgwyr. Daeth cyllid felly o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys cyllid gwreiddiol a chymorth ehangu'r Rhaglen Diwtora Cenedlaethol, cyllid at hyfforddi athrawon, a photiau adnoddau ychwanegol megis y grant Cyllid Ychwanegol Dal-i-Fyny a'r Premiwm Adfer, sy'n gysylltiedig â'r Premiwm Disgyblion presennol ac sydd wedi ei dargedu at ddysgwyr difreintiedig. Roedd gweithlu cyfyngedig, ynghyd â phroblemau recriwtio a chadw, yn golygu bod angen targedu'r tiwtora ychwanegol, gan na fyddai darparu cymorth ychwanegol i bob dysgwr wedi bod yn bosibl.
- 4.3.2 Roedd cyllid yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr yn cyfateb yn fras i'r angen, ond rhoddwyd y grym i ysgolion benderfynu pa ddysgwyr oedd angen cymorth ychwanegol. Roedd adborth yng Ngogledd Iwerddon yn amau a oedd lefelau prydau ysgol am ddim yn ddangosydd addas o angen.²⁷ Yng Ngogledd Iwerddon, roedd gan ysgolion fwy ymreolaeth wrth wario yn ail flwyddyn y cyllido oherwydd tanwariant yn hanner cyntaf blwyddyn ysgol 2020/21. Defnyddiodd ysgolion hyn i ariannu ymarferwyr allanol ychwanegol ac adnoddau eraill. Caniatawyd i ysgolion ôl-gynradd, sy'n cyfateb i ysgolion uwchradd yng Nghymru, gyflawni ymyraethau y tu allan i oriau arferol ysgol a defnyddiwyd cynorthwyyr ystafell ddosbarth lle'r oedd heriau gweithluoedd yn ei gwneud yn anodd recriwtio mewn ysgolion cyfrwng Gwyddeleg. Fe wnaeth ymyraethau a gyflwynwyd mewn ysgolion cynradd ac ôl-gynradd helpu gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â llesiant emosiynol.

²⁷ "An evaluation of the Department of Education's Engage Programme in primary and post-primary schools during 2020-2021," Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Lloegr, 2021 [An evaluation of the Department of Education's Engage Programme in primary and post-primary schools during 2020-2021 | Education Training Inspectorate \(etini.gov.uk\)](https://www.etini.gov.uk/evaluation-of-the-department-of-education-s-engage-programme-in-primary-and-post-primary-schools-during-2020-2021)

- 4.3.3 Roedd y ffordd yr aeth yr Alban ati yn seiliedig ar raglen a oedd yn bod eisoes, y Her Cyflawiad yr Alban, sy'n canolbwyntio ar gau'r bwloch cyflawni seiliedig ar dlodi. Ers i effeithiau'r pandemig ar ddysgwyr ddod yn amlwg, mae'r ffrwd gyllid hon wedi dod yn llawer pwysicach gyda'i nod o adferiad Covid a "dal i fyny". Dyrannwyd £500 miliwn ychwanegol ar gyfer blynyddoedd ysgol 2020/21 a 2021/22, gyda bron i hanner hyn ar gyfer recriwtio staff ychwanegol. Dosbarthwyd cyllid ychwanegol ar gyfer dyfeisiadau digidol hefyd mewn ymdrech i sicrhau cyfle i bob plentyn ddefnyddio dyfais dysgu o bell.
- 4.3.4 Gan fod tua hanner holl ysgolion Lloegr yn academiâu, roedd awdurdodau lleol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig yn Lloegr nag yn y gwledydd eraill. Yn Lloegr, cafodd rhai cronfeydd eu dosbarthu'n uniongyrchol i ysgolion, gydag amrywiol raddau o ganllawiau. Er enghraifft, rhoddwyd yr amser tiwtora ychwanegol i bobl ifanc 16-19 oed gyda chanllawiau cymharol gaeth ar pwy y dylid ei gefnogi gyda'r cyllid hwn.²⁸
- 4.3.5 Dengys Tabl 4.1 brif elfennau'r dulliau a ddefnyddiwyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gefnogi'r sector addysg mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Mae'n bwysig nodi y bwriedir y tabl hwn fel crynodeb yn unig ac nid fel cymhariaeth o'r gwledydd. Roedd y cyllid a'r rhaglenni a ddarparwyd yn ymwneud â gwahanol rannau o'r sector a gwahanol gyfnodau o amser ac roeddent ar raddfeydd sylweddol

²⁸ Ymysg gwledydd yr OECD, adroddodd 30 y cant gynnydd yn niferoedd athrawon mewn lefelau is ysgolion uwchradd is a 37 y cant gynnydd yn lefel ysgolion cynradd yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Adroddodd Portiwgal am 3,300 o athrawon newydd. Defnyddiodd Sbaen 30,000 o athrawon newydd i alluogi creu 21,000 o ddosbarthiadau ychwanegol i leihau maint cyffredinol dosbarthiadau. Roedd dulliau eraill o gynyddu capasiti yn cynnwys cynyddu'r wythnos ysgol ddwy awr yn Awstria. Fe wnaeth Lwcsembwrg gyflogi staff dros dro nad oeddent yn athrawon adrystiedig i gynyddu capasiti. Yn Latfia, derbyniodd athrawon lwfansasu ychwanegol i ddarparu cwnsela ychwanegol i gefnogi llesiant dysgwyr agored i niwed.

wahanol o safbwynt y swm o gyllid a ddyrannwyd a'r nifer o ysgolion a dysgwyr a gefnogwyd.

Tabl 4.1: Crynodeb o Ddulliau Cefnogi'r Sector Addysg

	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Problemau allweddol	Gweithlu (cyflenwad cyfyngedig o ymarferwyr (posibl))	Gweithlu (cyflenwad cyfyngedig o ymarferwyr (posibl)), yn enwedig ymarferwyr Gwyddeleg	Gweithlu (cyflenwad cyfyngedig o ymarferwyr (posibl))
Blaenoriaethau	Ansawdd addysgu Cymorth a thiwtora wedi'i dargedu (pob oedran ac yn ychwanegol i'r rheini sydd ei angen ac yn 16 i 19 oed)	Cymorth a thiwtora wedi'i dargedu Llesiant	Cymorth llesiant yn yr ysgol Recriwtio staff Cymorth pellach i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad
Cyllid a Rhaglenni	<u>Dysgu</u> Rhaglen Diwtora Cenedlaethol Cyllid i ysgolion haf Cyllid at amser tiwtora ychwanegol i fyfyrwyr 16 i 19 oed sydd ei angen <u>Tegwch</u>	<u>Dysgu</u> Rhaglen Engage ar gyfer tiwtora grwpiau bach <u>Llesiant</u> Cynllun sydd â phwyslais ar iechyd emosiynol a llesiant	<u>Dysgu, y Gweithlu a Llesiant</u> Her Cyflawniad yr Alban (roedd hwn yn bod cyn Covid, ond daeth i gynnwys elfennau o adferiad wedi Covid) Fframwaith Gwella Cenedlaethol yn canolbwyntio ar gyflawniad a llesiant Diwygio'r Cwricwlwm

	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
	<p>Premiwm Adferiad (cysylltiedig â'r Premiwm Disgyblion, wedi wedi dargedu at ddisgyblion difreintiedig)</p> <p>Premiwm Dal i Fyny i bob disgybl ers mis Mehefin 2020</p> <p><u>Gweithlu</u></p> <p>Cyllid at hyfforddi athrawon</p>	<p><u>Gweithlu</u></p> <p>Cyflogwyd athrawon cyflenwi</p>	<p>Cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol a staff addysgu</p> <p><u>Mynediad a Thegwch</u></p> <p>Cyllid Dyfeisiadau a Chysylltedd Digidol i ddarparu 72,000 o ddyfeisiadau</p>
Cyfanswm bfuddsoddiad rhwng pob cynllun	£4.9 biliwn	£46 miliwn	<p>£500 miliwn i gefnogi staff a myfyrwyr, gan gynnwys cyllid ar gyfer staff ychwanegol (2020-2022)²⁹</p> <p>£1 biliwn i Her Cyflawniad yr Alban (a oedd yn bod cyn y pandemig)</p> <p>£90 miliwn o gyllid logisteg i leoliadau addysg</p>

²⁹ [Education recovery \(gov.scot\)](https://www.gov.scot/publications/education-recovery/pages/29.aspx).

	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Gweithredu ac Adborth	Roedd gan awdurdodau lleol rywfaint o gyfrifoldeb, ond mae 50 y cant o ysgolion yn academiâu ac felly roedd ganddynt gyswllt uniongyrchol ag Adran Addysg Lloegr	<p>Aeth yr arian yn uniongyrchol i ysgolion, y cyllid yn ddibynnol ar faint, ond wedi ei bwysoli tuag at lefelau prydau ysgol am ddim.</p> <p>Dim llawer yn manteisio arno yn y flwyddyn gyntaf, canlyniadau cymysg.</p> <p>Rhoddwyd mwy o ymreolaeth yn yr ail flwyddyn, ysgolion yn cael caniatâd i ddargyfeirio mwy o adnoddau at ddefnyddio ymarferwyr allanol neu brynu adnoddau.</p> <p>Y flwyddyn gyntaf wedi ei chyfyngu gan ysgolion yn cau – tanwariant o ganlyniad i gyfyngiadau ar gyflwyno digidol.</p>	<p>Penderfyniadau'n cael eu harwain gan ddull Getting It Right For Every Child Llywodraeth yr Alban.</p> <p>Nid oedd yn gosod amodau rhy gaeth ar awdurdodau lleol, ond roedd yn ofynnol canolbwyntio ar leferydd ac iaith</p> <p>Roedd gan staff reolaeth ar pa staff roeddent yn eu cymryd ymlaen.</p>

4.4 Dulliau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig: Blynyddoedd Cynnar

- 4.4.1 Roedd ymatebion pob un o'r tair gwlad wedi cael eu dylanwadu gan broblemau gweithlu ers amser maith yn y sector gofal plant ac roeddent yn ymwneud â chynaliadwyedd y sector yn ogystal â sicrhau darpariaeth addysg gynnar o ansawdd uchel. Roeddent i gyd hefyd yn rhoi rhyw raddau o reolaeth i awdurdodau lleol ynghylch sut oedd arian ychwanegol ar gyfer Covid-19 yn cael ei wario yn y sector gofal plant. Roedd Llywodraeth yr Alban yn pwysleisio dull seiliedig ar ganlyniadau i awdurdodau lleol, tra bod Llywodraeth Lloegr yn dosbarthu rhywfaint o arian yn uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a rhywfaint trwy broses gaffael. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd trafodaethau gyda grŵp o randdeiliaid ymarferwyr yn y sector yn dangos yn glir yr anghenion a adnabuwyd, gyda dealltwriaeth y byddai llai o alw am wasanaethau Blynyddoedd Cynnar yn effeithio ar eu cynaliadwyedd.
- 4.4.2 Fe wnaeth llywodraethau Lloegr a'r Alban ill dwy fuddsoddi mewn hyfforddiant a chyllid ar gyfer cymwysterau i ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar, gan ganolbwyntio ar hyfforddiant Lleferydd, iaith a Chyfathrebu a lliniaru problemau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw. Mae'r Alban, yn benodol, yn bwriadu cyflwyno rhaglen ymyrraeth gynnar Lleferydd, iaith a Chyfathrebu dros y tair blynedd nesaf a rhoddodd hyblygrwydd sylweddol i awdurdodau lleol ar sut i wario'u cyllid yn wyneb adnoddau a chapasiti cyfyngedig.
- 4.4.3 Canolbwyntiodd Gogledd Iwerddon a'r Alban ar atgyfnerthu cynaliadwyedd y sector. Roedd dull Gogledd Iwerddon yn ymwneud yn arbennig â helpu lleoliadau i oresgyn y pandemig er gwaethaf lleoliadau'n cau a llai o alw, gyda'r llywodraeth wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun Blynyddoedd Cynnar mwy hirdymor. Oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig o'r arferion gorau yn ystod brig y pandemig, roedd cyflwyno cymorth cyllid i'r Blynyddoedd Cynnar yn gynllun mwy hirdymor yn yr Alban, wedi ei seilio ar helpu lleoliadau i weithredu cynlluniau a oedd eisoes wedi eu paratoi, gan gynnwys cyflwyno'r

cynnig estynedig o ofal plant wedi'i gyllido i blant dwyflwydd oed, a gychwynnodd yn 2021.

- 4.4.4 Bu'r Alban a Lloegr hefyd yn trosoli rhannau cryf o'r sector i helpu eraill. Defnyddiodd yr Alban rwydwaith a oedd yn bod eisoes o arweinwyr tegwch a rhagoriaeth i gefnogi lleoliadau, ac mae Lloegr wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno rhaglen Canolfannau Arferion Cryfach lle caiff lleoliadau cryf eu cyllido i gefnogi lleoliadau eraill yn eu hardal leol.
- 4.4.5 Fel yr uchod, mae Tabl 4.2 yn dangos y prif ddulliau a ddefnyddiwyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth gefnogi'r Blynyddoedd Cynnar mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Mae'n bwysig nodi y bwriedir y tabl hwn fel crynodeb yn unig ac nid fel cymhariaeth o'r gwledydd. Roedd y cyllid a'r rhaglenni a ddarparwyd yn ymwneud â gwahanol rannau o'r sector a gwahanol gyfnodau o amser ac roeddent ar raddfeydd sylweddol wahanol o safbwynt y swm o gyllid a ddyrannwyd a'r nifer o ysgolion a dysgwyr a gefnogwyd.

Tabl 4.2: Crynodeb o Ddulliau Cefnogi'r Sector Gofal Plant

	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Heriau Allweddol	Gweithlu (heriau a oedd yn rhagflaenu Covid-19 ond a ddaeth yn amlycach fyth dros gwrs y pandemig)	Gweithlu (heriau a oedd yn rhagflaenu Covid-19 ond a ddaeth yn amlycach fyth dros gwrs y pandemig)	Gweithlu (heriau a oedd yn rhagflaenu Covid-19 ond a ddaeth yn amlycach fyth dros gwrs y pandemig)
Blaenoriaeth	Datblygu a hyfforddi'r gweithlu Canllawiau i leoliadau	Cynaliadwyedd y sector Gweithlu	Cynaliadwyedd y sector Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
Cyllid a Rhaglenni	<u>Gweithlu</u> Datblygiad proffesiynol parhaus mewn datblygiad plant, cymorth academiaidd a chymdeithasol Cyllid ychwanegol ar gyfer cymwysterau a hyfforddiant i annog mwy o bobl i'r sector <u>Canllawiau</u>	<u>Mynediad a Chynaliadwyedd Lleoliadau</u> Cronfa Cymorth Argyfwng Covid i helpu cadw lleoliadau'n agored, sicrhau cynaliadwyedd darparwyr sydd wedi cau Cronfa Cau Dros Dro Cynllun Adferiad Gofal Plant (Gorffennaf-Medi 2020)	<u>Mynediad a Chynaliadwyedd Lleoliadau</u> Ymestyn Cynnig Gofal Plant i blant dwyflwydd oed (o 2021) Buddsoddiad Tegwch Disgyblion


	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
	<p>Cymorth i leoliadau gyda grŵp o ymgynghorwyr yn cael eu sefydlu</p> <p>Canolfannau Arferion Cryf (sefydlwyd ym mis Tachwedd 2022)</p> <p>Lleihau gofynion fframwaith statudol Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar</p>	<p><u>Gweithlu</u></p> <p>Cynllun Cynaliadwyedd i staffio lleoliadau llai (Hydref 2020 – Mawrth 2021)</p> <p><u>Dysgu</u></p> <p>Y rhaglen Engage ar gyfer tiwtora grwpiau bach yn cael ei hehangu i'r sector Blynyddoedd Cynnar</p>	<p><u>Dysgu</u></p> <p>Cronfeydd Her Cyflawniad Ysgolion (a oedd yn bod cyn y pandemig) yn cael eu gweithredu'n hyblyg gyda phwyslais ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu</p>
Cyfanswm buddsoddiad rhwng pob cynllun	£180 miliwn	£40 miliwn	£1 biliwn i Her Cyflawniad yr Alban (a oedd yn bod cyn y pandemig), hanner ar gyfer 1140 o oriau o ofal plant a hanner i neilltuo grantiau ar gyfer elfen dysgu cynnar a gofal plant awdurdodau lleol
Gweithredu ac Adborth	Gweithredu trwy awdurdodau lleol a chontractwyr	Grŵp rhanddeiliaid gydag ymarferwyr	Gweithredu trwy awdurdodau lleol

5. Theori Newid

5.1 Trosolwg

- 5.1.1 Mae Theori Newid grantiau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynnyddoedd Cynnar yn galluogi dealltwriaeth o sut y disgwylir i'r rhaglenni gyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir. Mae'n olrhain y gadwyn resymeg achosol yn ôl o'r effeithiau, trwy'r camau gweithredu a'r allbynnau a gynhyrchwyd gan y ddwy raglen, i'r adnoddau sydd ar gael a'r ysgogwyr a'r amcanion gwreiddiol.
- 5.1.2 Cafodd y Theori Newid ei ffurfio trwy adolygiad o ddogfennau'r rhaglen a dogfennau polisi, law yn llaw â llenyddiaeth academiaidd. Arweiniodd hyn at fodel drafft a fireiniwyd trwy weithdy gyda grŵp llywio'r gwerthusiad.
- 5.1.3 Mae'r Theori Newid yn nodi'r ddealltwriaeth gyffredinol o sut mae'r ddwy raglen yn gweithio i gynhyrchu'r canlyniadau a fwriedir. Bwriadwyd i'r grantiau fod yn hyblyg ar gyfer anghenion a adnabuwyd yn lleol gydag awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau gofal plant sy'n gyfrifol am y gweithredu terfynol. Y disgwyliad yw y gall y gwaith amrywio'n sylweddol ac felly na fyddai pob lleoliad yn cynhyrchu pob canlyniad. Ceisiodd y gwerthusiad ymchwilio'r Theori Newid cyffredinol hwn ym mhob achos unigol er mwyn deall sut roedd yn gweithio'n ymarferol.
- 5.1.4 Mae'r Theori Newid cyffredinol yn gadarn ar lefel genedlaethol gyda chytundeb ymysg yr holl randdeiliaid fod y ddwy raglen yn adnabod yr anghenion yn gywir ac yn mynd i'r afael â hwy â chymau addas i gyflawni amcanion defnyddiol.
- 5.1.5 Mae'r Theori Newid isod yn darlunio'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau'r rhaglen.

Ffigur 5.1: Theori newid y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a rhaglen y Blynnyddoedd Cynnar



5.2 Ysgogwyr y rhaglenni

5.2.1 Mae ysgogwyr y ddwy raglen, Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a'r Blynnyddoedd Cynnar, yn codi o'r polisiau sy'n sail i addysg yng Nghymru, y rheini a lywiodd yr ymateb i'r pandemig, a'r polisiau ac iddynt y nod o oresgyn yr heriau i addysg a achoswyd gan Covid-19. Y polisiau hyn yw:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymateb i Covid – gan gynnwys cyfnodau clo, cadw pellter cymdeithasol, a chyfnodau ynysu
- Strategaeth Adnewyddu a Diwygio: Cefnogi Lles a Chynnydd Dysgwyr
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Datblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru
- Y Cyfnod Sylfaen (cyn mis Medi 2022)
- Y Cynnig Gofal Plant i Gymru
- Dechrau'n Deg
- Siarad gyda Fi

5.2.2 Mae'r polisiau yn nodi angen i gyflwyno addysg o ansawdd uchel i ddysgwyr 3-16 oed yn wyneb tarfu ar y systemau sydd ar gael i wneud hynny. Maent yn nodi anghenion cyffredinol sy'n cael eu rhannu gan yr holl leoliadau addysg a dysgwyr. Y rhain yw'r angen am y canlynol:

- adennill amser dysgu a datblygu a gollwyd yn sgil naill ai cyfnodau clo cenedlaethol neu absenoldebau dysgwyr a staff o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19,
- mynd i'r afael ag ymddieithrio o addysg gan ddysgwyr yn sgil yr absenoldebau hyn a lleihad mewn parodrwydd i ddysgu,
- galluogi dysgwyr i adfer cynnydd addysgol yn effeithiol. Y farn yw bod pob dysgwr ar ei hôl hi mewn cyrhaeddiad o gymharu â byddent wedi bod heb Covid-19,
- cefnogi llesiant dysgwyr yn wyneb achosion uwch o iechyd meddwl gwael gan gynnwys gorbryder ar draws pob cohort.

5.3 Amcanion

5.3.1 Yr amcanion mewn Theori Newid yw'r hyn mae'r rhaglen yn ceisio'i wneud. Gall gwerthusiad asesu effeithiolrwydd rhaglen trwy ystyried a gafodd y nodau hyn eu gwireddu ai peidio, ac os cawsant, sut y gwnaed hynny. Gellir crynhoi egwyddorion y ddwy raglen, Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a'r Blynyddoedd Cynnar, mewn pum egwyddor:

- **Egwyddor 1: dysgwyr sydd â'r angen mwyaf.** Bydd y cyllid o fwyaf o fudd i'r cohortau blaenoriaeth a ganlyn:
 - Dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau ym mlwyddyn 11
 - Dysgwyr bregus a difreintiedig gan gynnwys y plant a'r teuluoedd tlotaf (a gaiff eu diffinio'n aml fel rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim), dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, plant sipsiwn Roma a theithwyr, a dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg
 - Blwyddyn 7 yn sgil tarfu ar y pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd
 - Unigolion nad ydynt yn y grwpiau uchod sydd ag angen a adnabuwyd yn ôl yr hyn a benderfynwyd gan ysgolion a lleoliadau
- **Egwyddor 2: Blaenoriaethau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i ddysgwyr.** I ffurfio sail sy'n unol â diwygio'r cwricwlwm, bydd y pwyslais ar y canlynol:
 - Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
 - Sgiliau dysgu annibynnol
 - Cymorth ac anogaeth trwy hyfforddi
 - Datblygiad emosiynol, corfforol a dysgu ar gyfer addysg gynnar.
- **Egwyddor 3: Tyfu capasiti.** Diben y cyllid yw darparu:
 - Capasiti staff ychwanegol o fewn ysgolion.

- I addysg gynnar, cefnogi cymarebau staff a phlant
- **Egwyddor 4: Lleihau biwrocratiaeth a sicrhau tryloywder.**
Defnyddio'r adnoddau'n dda a chadw gwaith papur i isafswm:
 - Dylai cynlluniau ysgol nodi bwriadau mewn ffordd syml
 - Dylai'r bwriadau gael eu cadarnhau gan y Corff Llywodraethu a bod ar gael i rieni a chymuned yr ysgol
 - Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal 'briff dysgu' fel system addysg, trwy rannau gwybodaeth a chanfyddiadau ynghylch effaith y rhaglen wrth iddi ddatblygu.
- **Egwyddor 5: Cydweithio.** Gyda rhanbarthau, awdurdodau lleol, partneriaid eraill, a lleoliadau:
 - Cydweithio strategol i gefnogi'r grantiau a fydd yn arwain at gyfleoedd pellach i gefnogi plant, teuluoedd, ac ysgolion a lleoliadau gofal plant.
 - Clystyrau a chydweithrediadau ysgolion i gronni adnoddau.

5.4 Mewnbynnau, Gweithgareddau ac Allbynnau

5.4.1 Yr adnoddau sy'n angenrheidiol eu mewnbynnu i'r ddwy raglen yw:

- Adnoddau ariannol yn ffurf cyllid grant
- Staff cymwys o ansawdd digonol
- Rhwydweithiau a chysylltiadau, yn rhai newydd a rhai a oedd yn bod eisoes.

5.4.2 Mae'r mewnbynnau hyn yn galluogi'r gweithgareddau canlynol: cynllunio, asesu anghenion unigol ar lefelau'r lleoliad, yr awdurdod lleol a rhanbarthol, a pharatoi atebion. Recriwtio capasiti ychwanegol i weithredu yn y cynlluniau hyn, a defnyddio capasiti staff ychwanegol.

5.4.3 Roedd disgwyl i allbwn (canlyniad) hyn fod yn gynnydd gweladwy mewn capasiti wedi ei fesur fel cyfwerth ag amser llawn (FTE), a chynnydd mewn cydweithio ar bob lefel, data monitro, a chynlluniau cydgysylltiedig.

5.5 Effeithiau

5.5.1 Roedd disgwyl mai canlyniadau ac effeithiau mwy hirdymor y ddwy raglen fyddai:

- atebion arloesol i'r anghenion sy'n wynebu dysgwyr
- dulliau cydgysylltiedig ar draws ysgolion a lleoliadau, a phartneriaid, awdurdodau lleol a rhanbarthau
- cynyddu capasiti a hyblygrwydd ar lefel lleoliad
- cynnydd mewn staff sy'n gweithio mewn addysg yng Nghymru
- darparu cymorth wedi'i dargedu i'r plant a phobl ifanc yr effeithiwyd fwyaf arnynt
- lleihau, cyn belled â phosibl, effeithiau'r pandemig ar ddysgu
- sector addysg mwy gwydn mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant
- diogelu llesiant staff a dysgwyr.

5.6 Tybiaethau

5.6.1 Mae pob Theori Newid yn tybio bod pob elfen yn arwain yn uniongyrchol i'r nesaf, a bod cyswllt achosol rhwng elfennau.

5.6.2 Yn y ddwy raglen, tybir y bydd capasiti staff ychwanegol yn rhoi'r hyblygrwydd a'r cydnherthedd mae ar ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar eu hangen i fynd i'r afael â'r anghenion a achoswyd gan Covid-19. Tybir ymhellach fod potensial heb ei gyffwrdd o gapasiti yn y gweithlu addysg i'r sectorau ysgol a blynyddoedd cynnar fanteisio arno. Yn olaf, tybiaeth allweddol wrth lansio'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yw bod y cohortau yr effeithiwyd fwyaf arnynt yn cynnwys y rheini yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan ffactorau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Covid-19.

5.6.3 Roedd rhanddeiliaid â thybiaeth bellach fod capasiti staff yn gyffredinol yn broblem hirdymor i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar ac y gall atebion llawn gymryd blynyddoedd i'w darparu ar wahân i unrhyw heriau ychwanegol a achoswyd gan Covid-19.

6. Canfyddiadau

6.1 Perthynas â phecynnau cymorth eraill

- 6.1.1 Mae'r ddwy raglen – Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynnyddoedd Cynnar – wedi cael eu gweithredu law yn llaw â chynlluniau grant a phecynnau cymorth eraill a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Mae hyn yn cynnwys cymorth a oedd eisoes yn ei le cyn y pandemig Covid-19, a ffrydiau eraill o gyllid a chymorth a ddaeth i fod o ganlyniad i'r pandemig.
- 6.1.2 Mae'r canlynol yn enghreifftiau penodol o gyllid ychwanegol a weithiodd yn dda law yn llaw â grantiau'r ddwy raglen, yn ôl rhanddeiliaid, ysgolion a lleoliadau gofal plant:
- Cronfeydd cynaliadwyedd ar gyfer cyfarpar diogelu personol a ariannwyd gan Bartneriaeth y Plant
 - Y cynllun lleoliadau i athrawon newydd gymhwyso a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru
 - Cronfeydd cymorth Covid-19 awdurdodau lleol
 - Y Grant Datblygu Disgyblion, gan gynnwys yr elfen ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
 - Cyllid ar gyfer llesiant a phresenoldeb sydd wedi gadael i'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ganolbwyntio mwy ar ddysgu.
- 6.1.3 Ym mhrofiad rhanddeiliaid, nid oedd y gwahanol grantiau hyn wedi eu cydgysylltu'n llawn o ran y ffordd y cawsant eu cyflwyno na'u hamcanion, gyda'r berthynas rhyngddynt yn ddamweiniol yn hytrach na'n bwrpasol. Mae'r nifer uchel o grantiau unigol sy'n dod o sianelau tebyg yn cael effaith negyddol ar ddeall pob un ohonynt yn unigol. Mae hyn fwyaf amlwg mewn lleoliadau gofal plant, lle caiff cyllid ei weinyddu gan awdurdodau lleol sy'n arwain mewn llawer achosion at ddim, neu fawr ddim, ymwybyddiaeth o grantiau'r ddwy raglen a'r gred fod y cymorth a ddarparwyd trwyddynt yn deillio o'r awdurdod lleol.

6.1.4 O ran y graddau y cafodd rhaglenni cymorth dysgu/addysg a gweithgareddau a oedd yn bod eisoes eu trosoli i hybu effeithiolrwydd y rhaglen, mae enghreifftiau'n cynnwys y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn cael ei gyflwyno law yn llaw â Chynorthwyywyr Addysgu Lefel Uwch yn cyflwyno ymyraethau dysgu tra oedd y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddyrannu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad plant a phobl ifanc. Fel rhan o ymyraethau cyllid eraill ar gyfer presenoldeb a llesiant, roedd rhai lleoliadau ysgol yn cyflogi swyddog cymorth llesiant a swyddog cysylltu â theuluoedd, a oedd yn ei dro yn galluogi staff Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i ganolbwyntio ar ddysgu. Fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o grantiau wedi dod yn hwyr yn y flwyddyn ariannol neu ar fyr rybudd. O ganlyniad, roedd arweinwyr ysgolion a gofal plant yn dweud bod cyllid grantiau yn cael eu defnyddio'n aml i dalu costau a oedd eisoes wedi eu hysgwyddo.

6.2 Dosbarthiad

- 6.2.1 Cafodd dosbarthiad y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ei benderfynu gan y meini prawf dyrannu (gweler 1.3), gan fynd yn uniongyrchol i ysgolion, yn aml heb fawr o ryngweithio â'r awdurdod lleol. O'r awdurdodau lleol a chwaraeodd ran fwy gweithredol, roedd rhai yn pennu i ysgolion y categorïau y gellid gwario cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau tra bod eraill yn gofyn yn uniongyrchol i ysgolion sut y byddent yn gwario'r arian.
- 6.2.2 Roedd lleoliadau gofal plant yn derbyn cyllid trwy'r awdurdodau lleol heb fawr o gysondeb ledled Cymru o ran sut roedd hyn yn trosi i gymorth uniongyrchol i leoliadau gofal plant. Dewisodd un awdurdod lleol amrediad o ddewisiadau hyfforddiant yn unol â phenawdau Llywodraeth Cymru a gadael i'r lleoliadau ddewis o'r rhestr. Roedd y cynnig yn cynnwys sesiynau gyda'r tîm datblygu chwaraeon a rhannu'r swm a oedd yn weddill ar gyfer gwaith ymyrraeth gan staff.

Yng nghyd-destun gofal plant, roedd awdurdodau lleol yn aml yn dewis defnyddio'r cyllid i ddarparu hyfforddiant i'r sector nas cynhelir.

- 6.2.3 Y teimlad oedd bod y ffurflenni a'r canllawiau ynghylch sut y dylid gwario'r arian yn syml. O ganlyniad, roedd rhanddeiliaid mewn ysgolion ac awdurdodau lleol yn wybodus am y posibiliadau ynglŷn â'r cyllid. Dywedwyd eu bod yn gallu gwneud y penderfyniadau anghenrheidiol ac addasu'r cyllid i ddiwallu eu hanghenion penodol. Fodd bynnag, un broblem a brofwyd gan arweinwyr ysgolion a gofal palnt oedd yr angen am fwy o wybodaeth am y grant yn yr hirdymor, a fyddai'n galluogi ysgolion a lleoliadau gofal plant i gynllunio staffio a recriwtio. Er enghraifft, gallai fod potensial wedyn i gyflwyno contractau mwy hirdymor i staff. Roedd lleoliadau eraill hefyd yn dadlau bod y system ddosbarthu'n golygu eu bod yn teimlo'u bod yn gwario'r cyllid grant yn adweithiol, yn hytrach na chynllunio'n effeithiol sut i gael yr effaith mwyaf posibl.
- 6.2.4 O ran y dyraniadau cyllid, roedd rhai o'r ysgolion a gyfwelwyd yn feirniadol o ddefnyddio'r ganran o brydau ysgol am ddim fel penderfynydd o faint o gyllid y dylai ysgol ei dderbyn. I'r rhanddeiliaid hyn roedd risg o golli rhai dysgwyr bregus wrth i'r argyfwng costau byw ychwanegu at effeithiau Covid-19. Mae cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb yn golygu nad oes angen mwyaf i rieni gofrestru eu cymhwysedd i hawlio. Mae hyn yn gwneud y defnydd o brydau ysgol am ddim fel dangosydd procsi o lefelau o amddifadedd economaidd yn fwyfwy anghynaliadwy.
- 6.2.5 Nid oedd yn ymddangos bod dull cyson o weithredu cymorth i leoliadau gofal plant gan awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda gwahanol ddulliau yn disgyn i dri chategori. Roedd rhai awdurdodau lleol yn dyrannu cyfran gofal plant o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau neu'r £13m o gyllid Grant Gwella Addysg ar gyfer cyllid addysg gynnar yn uniongyrchol i leoliadau. Mae eraill wedi mynd ati mewn ffordd fwy strategol, gan wario'r arian ar adnoddau megis hyfforddiant y gall lleoliadau ddewis ohonynt. Mae'r trydydd grŵp wedi defnyddio dull cymysg gyda rhywfaint o'r cyllid yn cael ei wario'n

strategol, a'r gweddill yn mynd i leoliadau gofal plant. Canlyniad gwario strategol yw bod llawer o leoliadau gofal plant nad oeddent yn ymwybodol o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau na'r £13m ychwanegol o Grant Gwella Addysg fel grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gyda'r cymorth yn lle hynny yn cael ei weld fel pe bai'n dod oddi wrth yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae lleoliadau gofal plant wedi cael llai o ddewisiadau ar gael o gymharu ag ysgolion gan fod y penderfyniad allweddol yn cael ei wneud ar lefel awdurdod lleol. Roedd ysgolion, o gymharu, yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain gyda'r cyllid.

6.3 Cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol

- 6.3.1 Roedd llawer o awdurdodau lleol yn rhoi canllawiau bras a chyngor i leoliadau ysgol ar sut y ddefnyddio'r cyllid, a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yr awdurdodau lleol yn gyffredinol hyblyg yn eu dull o gynghori, gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol ysgol. Roedd awdurdodau lleol yn rhoi cymorth ond roedd ysgolion yn cadw ymreolaeth i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail eu hanghenion unigryw. Mewn rhai achosion, ailadroddwyd gan awdurdodau lleol y dylid gwario cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ar staff ac adnoddau dynol yn bennaf.³⁰ Roedd hyn yn cael ei ysgogi gan yr angen am gymhareb athro-disgybl gynaliadwy ac effeithiol, a fyddai'n sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu'n ddigonol, yn wyneb yr heriau cynyddol a gododd yn ystod y pandemig Covid-19.
- 6.3.2 Darparwyd cyngor a chymorth pellach gan rai awdurdodau lleol trwy hwyluso cyfarfodydd cychwynnol yn ogystal a thrwy gyfathrebu parhaus gyda lleoliadau ysgol. Trafodwyd manylion y grant yn y cyfarfodydd hyn, ac roedd llinellau cyfathrebu parhaus ar gael i alluogi

³⁰ Mewn lleoliad gofal plant nas cynhelir, gellid gwario'r cyllid ar adnoddau dynol; hyfforddiant; neu adnoddau deunyddiau.

ac annog ysgolion i rannu gwybodaeth, syniadau, a'r arferion gorau ynghylch defnyddio'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

- 6.3.3 Dywedodd rhai ysgolion mai cyfyngedig oedd y cyngor, cymorth neu ganllawiau ychwanegol a gawsant ynghylch defnyddio'r cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a dderbyniwyd. Yn y pen draw, gadawyd y penderfyniad i'r ysgolion unigol o ran sut i ddefnyddio'r cyllid mewn ffordd a fyddai'n arwain at y budd mwyaf effeithiol i'r ysgol honno a'u hanghenion penodol.
- 6.3.4 Rhoddodd awdurdodau lleol ganllawiau mwy caeth i leoliadau gofal plant yn unol â gwariant strategol ac roedd rhai yn cynnig rhestrau o syniadau am adnoddau penodol yn gellid gwario cyllid arnynt. Roedd amryw enghreifftiau o'r syniadau hyn am adnoddau a gynigiwyd i ysgolion a lleoliadau gofal plant, a oedd yn cynnwys offer chwaraeon ac awyr agored, yn ogystal â hyfforddiant ar gymorth effeithiol ar gyfer llesiant a datblygiad emosiynol.
- 6.3.5 Addaswyd graddau'r cymorth a'r math o gymorth gan awdurdodau lleol dros amser wrth i gamau dilynol o'r ddwy raglen gael eu darparu i leoliadau, a daeth awdurdodau lleol yn fwy profiadol wrth ymdrin â'r cyllid. Mewn camau diweddarach o gyllid, roedd amryw o awdurdodau lleol yn gallu rhoi cwestiynau cyffredin a oedd yn codi o gamau blaenorol y cyllid i leoliadau gofal plant.

6.4 Rôl partneriaid

- 6.4.1 Mae ysgolion wedi adrodd am brofiadau cymysg ynghylch y rôl a chwaraewyd gan y Consortia Rhanbarthol a phartneriaethau o ran sut y cyfeiriwyd ac y defnyddiwyd cyllid, a beth oedd ei effaith. Dywedodd rhai ysgolion fel Consortia Rhanbarthol a phartneriaethau'n ymwneud yn helaeth ag awdurdodau lleol, ysgolion, a lleoliadau. O fewn yr enghreifftiau hyn, roedd Consortia Rhanbarthol/partneriaethau yn hwyluso rhannu syniadau ar sut i ddefnyddio cyllid ymysg ysgolion a lleoliadau gofal plant, gan gynnwys enghreifftiau o'r arferion gorau ac astudiaethau achos fel sail i lunio cynlluniau ar gyfer defnyddio

cronfeydd. Roedd eraill yn ei chael yn anodd ceisio gwybodaeth neu ganllawiau manwl gan Consortia Rhanbarthol neu bartneriaethau, yn enwedig lle'r oedd cyllid munud olaf Grant Gwella Addysg yn y cwestiwn.

- 6.4.2 O safbwynt ysgolion ac awdurdodau lleol, mae dulliau Consortiau Rhanbarthol/partneriaethau yn seiliedig yn arferol ar gydymffurfio o sicrhau ansawdd. Dim ond nifer bach o randdeiliaid a oedd yn gallu adnabod rôl Consortia Rhanbarthol neu bartneriaethau addysg yn y grantiau. Awgryma hyn ei bod yn ymddangos mai cyfyngedig oedd y gwerth ychwanegol a enillwyd gan awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau gofal plant ar sail y rhan a chwaraewyd gan Consortia Rhanbarthol/partneriaethau. Mae'n debygol fod cyfle wedi cael ei golli i wneud y grant yn fwy effeithiol trwy Consortia Rhanbarthol/partneriaethau yn gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer rhannu'r arferion gorau neu gydgyssylltu cydweithio ar lefel lleoliad.
- 6.4.3 O ran y rolau mae partneriaid eraill wedi eu chwarae wrth hyrwyddo'r cynllun, fe wnaeth Blynnyddoedd Cynnar Cymru a Plant yng Nghymru ddarparu canllawiau ar sut y gellid defnyddio'r cronfeydd yn wyneb y pandemig Covid-19. Canfu'r ymchwil rai enghreifftiau o bartneriaid, gan gynnwys Sefydliadau Ambarél yn cael eu cael eu gwahodd i gymryd rhan gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn gynnar yn y broses, a oedd yn helpu creu gweledigaeth glir a chefnogaeth i'r rhaglen a chynllunio cyllid.
- 6.4.4 Roedd partneriaid yn feirniadol nad oedd cyhoeddiadau o'r cyllid yn cael ei wneud yn ddigon ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn ymwneud â'r ffordd roedd cyllid yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno mewn cyfnod byr o amser. Y teimlad oedd y byddai cyhoeddi'r cyllid ymhellach o flaen llaw cyn ei gyflwyno ac ymrwymo i gyllid mwy hirdymor ynghynt o fudd i awdurdodau lleol, ysgolion, a lleoliadau gofal plant. Ar y llaw arall, roedd teimlad hefyd fod canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn glir ynghylch dibenion y grantiau, a bod y canllawiau hyn yn ddigon hyblyg i alluogi ysgolion i addasu eu defnydd o'r cronfeydd i'w hanghenion.

6.5 Sut y cafodd y cyllid ei ddefnyddio

- 6.5.1 Yn ôl yr arolwg monitro ysgolion, roedd ysgolion ar gyfartaledd wedi ennill yr hyn sydd gyfwerth ag aelod o staff cymorth amser llawn (1.05 cyfwerth ag amser llawn) (Cynorthwywyr Addysgu, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ac eraill) a hanner yr hyn sydd gyfwerth ag athro amser llawn (0.5 cyfwerth ag amser llawn) erbyn mis Ionawr 2022. Mae staff arall ac adnoddau allanol yn cynrychioli cyfran lai o sut y cafodd cyllid ei ddefnyddio, gyda 0.1 cyfwerth ag amser llawn ar draws yr holl ysgolion. Roedd y patrwm hwn yn debyg ar gyfer pob grŵp oedran ledled Cymru. Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ac unedau cyfeirio disgyblion wedi bod ychydig yn fwy tebygol o wario ar oriau athrawon (1 athro cyfwerth ag amser llawn i bob 1.5 staff cymorth cyfwerth ag amser llawn) nag ysgolion cyfrwng Saesneg (1 athro cyfwerth ag amser llawn i bob 2.4 staff cymorth cyfwerth ag amser llawn). Roedd ysgolion arbennig bedair gwaith fwy tebygol o wario ar oriau staff cymorth (1 athro cyfwerth ag amser llawn i bob 4.05 staff cymorth cyfwerth ag amser llawn). Nid oes data manwl ar gael ar gyfer lleoliadau gofal plant, gan nad oeddent wedi eu cynnwys yn yr ymarferiad monitro.
- 6.5.2 Nid oedd yr arolwg monitro yn cynnwys y £10m ychwanegol a weinyddiwyd gan y Grant Gwella Addysg ar gyfer addysg gynnar na'r £3m ar gyfer lleoliadau gofal plant nas ariennir. Mewn lleoliadau gofal plant a gyllidir ac nas cyllidir, mae'r grantiau wedi cael eu defnyddio mewn ffyrdd mwy amrywiol yn unol â'r gwahanol ganllawiau. Mae dulliau awdurdodau lleol yn rhannu'n dri chategori lle mae rhai wedi defnyddio'r cyllid i gefnogi'r sector yn strategol, mae eraill wedi dosbarthu'r cyllid i leoliadau i'w wario'n uniongyrchol mewn model tebyg i'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, ac mae rhai wedi cyfuno'r dulliau hyn gydag amrywiol gyfrannau o gyllid yn cael ei wario gan awdurdodau lleol a lleoliadau.
- 6.5.3 Awgryma adborth ansoddol mai'r hyn a wnaed gan bron bob ysgol a lleoliad gofal plant a dderbyniodd gyllid uniongyrchol oedd defnyddio

grantiau'r ddwy raglen i gynyddu oriau staff ar gontractau rhan-amser presennol. Fel hyn, mae'r ddwy raglen wedi cael eu defnyddio i dalu am yr oriau ychwanegol yn unig, gydag oriau'r contractau sylfaenol yn dal i gael eu hariannu gan gyllidebau'r lleoliadau eu hunain. Mae lleoliadau nad oedd ganddynt staff rhan-amser, neu staff nad oedd yn fodlon cynyddu eu oriau rhan-amser wedi ei chael yn anodd gwneud hyn. Dim ond nifer bach o ysgolion sy'n profi'r rhwystr hwn. Lle'r oedd lleoliadau gofal plant yn cynyddu oriau, roedd hyn yn cael ei wneud yn amlach ar sail ad-hoc trwy oramser yn hytrach nac fel estyniad cyson o gontract aelod penodol o staff.

- 6.5.4 Nid ymddengys fod grantiau Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi cael ei ddefnyddio i ariannu defnydd uniongyrchol o athrawon cyflenwi yn unih. Mae'r capasiti ychwanegol a grewyd gan y rhaglen wedi defnyddio'r gweithlu athrawon cyflenwi fel ffynhonnell o staff hyfforddedig. Mae heriau wedi bod ynghlwm â'r dull hwn. Fe wnaeth cyfnodau clo, ac yna'r cyfyngiadau a achoswyd gan fesurau cadw pellter cymdeithasol, effeithio'n llym ar y sector athrawon cyflenwi. A hwythau'n methu â gweithio, symud rhwng ysgolion, na hyd yn oed rhwng dosbarthiadau, soniodd rhanddeiliaid am lawer o athrawon cyflenwi yn gadael y sector yn ystod 2020 a 2021. Lle'r oedd athrawon cyflenwi o ansawdd da ar gael, a hwythau â chysylltiad yn bod eisoes ag ysgol, dechreuodd prifathrawon gynnig contractau cyflogaeth cyn cyhoeddi'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Mae cyllid y rhaglen wedi cael ei ddefnyddio'n ôl-weithredol i dalu am y swyddi hyn wrth i'r grant ddod ar gael. Mae ysgolion a wnaeth aros hyd nes oedd ganddynt fanylion penodol o'u dyraniad grant wedi ei chael yn llawer mwy anodd cael gafael ar athrawon cyflenwi i'w defnyddio fel hyn gan fod llawer eisoes yn cael eu cyflogi yn rhywle arall. Yn anuniongyrchol, trwy gynyddu cyllidebau ysgolion yn fwy cyffredinol, mae'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi cefnogi'r defnydd o athrawon cyflenwi gan ysgolion wrth i'r cyfyngiadau lacio.

- 6.5.5 Mewn nifer bach o ysgolion a lleoliadau gofal plant, ni weithiodd y ddwy raglen i gynyddu capasiti staff. Digwyddodd hyn pan oedd symiau'r cyllid a dderbyniwyd yn fach, yn enwedig pan oedd yn llai na chost contract aelod staff. Mewn rhai achosion, mae cyllid y ddwy raglen wedi cael ei ddefnyddio i wrthbwysu'r cyllidebau staffio, gan cynhyrchu capasiti ariannol ychwanegol yn rhywle arall. Mae ysgolion a lleoliadau gofal plant yn cytuno bod capasiti staff yn flaenoriaeth a lle bo capasiti ariannol ychwanegol wedi cael ei gynhyrchu gan grantiau'r ddwy raglen fel hyn, mae wedi cael ei ddefnyddio i ymdrin â meysydd blaenoriaeth y grantiau p'run bynnag. Er enghraifft, mae staff a gyflogir i gefnogi'r grwpiau blaenoriaeth yn aml â rhan o'u contract yn cael ei dalu gan grantiau'r ddwy raglen a rhan arall yn cael ei dalu allan o gyllidebau presennol yr ysgol.
- 6.5.6 Yn ôl yr arolwg monitro, yr ymyraethau mwyaf cyffredin mae Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi eu cefnogi mewn ysgolion yw cymorth llythrennedd (91.2 y cant o'r holl ysgolion³¹) a llesiant (85.9 y cant o'r holl ysgolion³²). Yn aml, caiff yr ymyrraethau hyn eu cyflwyno mewn cyfnod byr o amser i ddysgwyr, er enghraifft wedi eu cyfyngu i un tymor. Er mwyn targedu angen a gafodd ei adnabod caiff y rhain eu cyflwyno mewn grwpiau llai na dosbarth cyfan, neu ar lefel unigol i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau penodol rhag dysgu.
- 6.5.7 Roedd ysgolion a gyfwelwyd yn amlygu bod dulliau anuniongyrchol wedi cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy raglen. Mae'r capasiti a gynhyrchwyd gan y ddwy raglen wedi galluogi mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y caiff adnoddau staff eu defnyddio. Mae staff newydd i'r ysgol wedi cael eu defnyddio i weithio gyda dosbarthiadau sydd â niferoedd isel, neu heb ddim, grwpiau blaenoriaeth ac mae hyn wedi galluogi staff mwy profiadol i gyflwyno cymorth ychwanegol i grwpiau blaenoriaeth. Er enghraifft, mewn ysgolion uwchradd, mae staff presennol sydd â mwy o brofiad wedi cael eu defnyddio i gefnogi blynyddoedd 10 a 11 tra bod cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau

³¹ Mewn 93.2% o ysgolion cynradd, 88.5% o ysgolion uwchradd, a 100% o ysgolion 3-16

³² Mewn 84.3% o ysgolion cynradd, 94.6 % o ysgolion uwchradd, a 93.6% o ysgolion 3-16

wedi talu am staff i weithio gyda blwyddyn 8. Mae dulliau anuniongyrchol eraill wedi cynnwys cyflenwi athrawon ar gyfer sesiynau Cynllunio, Paratoi ac Asesu neu i weithredu fel ffynhonnell fewnol o staff cyflenwi ar gyfer absenoldebau a achosir gan salwch.

6.5.8 O fewn gofal plant lle bo'r cyllid wedi cael ei wario gan y lleoliadau eu hunain, mae'r Grant Gwella Addysg wedi cael ei ddefnyddio i dalu am staff ychwanegol. Mae'r grant wedi talu hefyd am offer i gefnogi dysgu penodol megis deunyddiau a rhaglenni i gefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Lle bo'r grant wedi cael ei ddefnyddio'n strategol gan awdurdodau lleol, mae wedi talu am ddarparwyr allanol megis grwpiau drama neu sesiynau awyr agored sydd wedyn ar gael i leoliadau fanteisio arnynt. Dywedodd lleoliadau gofal plant hefyd am awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant i uwchsgilio'r gweithlu gofal plant presennol trwy'r grant. Mae hyn wedi cael ei groesawu ond mae rhywfaint o bryder ynghylch yr angen i gyflawni hyfforddiant y tu allan i oriau gwaith. Roedd lleoliadau gofal plant yn dweud hefyd eu bod yn teimlo nad oes ganddynt fawr o gyfle i roi'r hyfforddiant hwn ar waith cyn i'r sesiynau hyfforddi nesaf gychwyn. Gyda'r ffrâm amser byrrach i'r Grant Gwella Addysg o gymharu â'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a hynny am flwyddyn yn unig, mae risg bod y grant wedi cael ei ddefnyddio ar adnoddau a oedd ar gael yn hytrach na'i dargedu lle gallai gyflawni'r mwyaf o effaith.


6.5.9 Un o amcanion arian ychwanegol y Grant Gwella Addysg ar gyfer addysg gynnar oedd cefnogi cymarebau staff-dysgwyr mewn ysgolion. Er bod mwy o hyblygrwydd yn amodau'r grant ar gyfer y sector gofal plant, mae wedi bod yn fwy anodd cefnogi cymarebau mewn lleoliadau gofal plant. Roedd lleoliadau gofal plant yn adnodd bod staff ychwanegol a gafodd eu recriwtio yn brin yn aml o'r cymwysterau angenrheidiol i fodloni gofynion cymarebau. Gall absenoldebau ysbeidiol a achosir gan Covid-19 hefyd effeithio ar gymarebau, yn enwedig yn y lleoliadau lleiaf ar gyfer gofal plant. Mewn rhai achosion, mae staff a gyflogwyd heb gymwysterau wedi

dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol ac mae hyn wedi cymryd amser i'w gwblhau.

6.6 Capasiti Ychwanegol

6.6.1 Amcangyfrifir bod yr hyn sydd gyfwerth â 2,452 o staff amser llawn mewn ysgolion wedi cael eu cyllido gan y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.³³ Staff cymorth sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r swyddi hyn (62.2 y cant) ac wedyn athrawon (29.9 y cant). Ar gyfartaledd yr amser a enillwyd i bob ysgol yw 1.05 aelod staff cymorth cyfwerth ag amser llawn, a 0.5 athro cyfwerth ag amser llawn. I roi cyd-destun, mae 0.05 o amser staff cymorth tua 90 munud o amser bob wythnos.


Ffigur 6.1: Capasiti staff ychwanegol, fel cyfwerth ag amser llawn, a grewyd gan y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau



Ffynhonnell: Data monitro Llywodraeth Cymru

³³ Cyflogwyd 1657 cyfwerth ag amser llawn ymysg y 993 o ysgolion a ddychwelodd yr arolwg monitro. Mae'r nifer hwn wedi cael ei gynyddu'n gymesur i amcangyfrif am 1470 o ysgolion yng Nghymru.


Ffigur 6.2: Capasiti ychwanegol yn ôl cyfrwng iaith



Ffynhonnell: Data monitro Llywodraeth Cymru

6.6.2 Staff cymorth oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gapasiti ychwanegol a ariannwyd ar draws pob ysgol. Canfuwyd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hefyd yn fwy tebygol o fod wedi ariannu capasiti ychwanegol trwy athrawon (mwy na thraean o staff cyfwerth ag amser llawn) nag ysgolion cyfrwng Saesneg (mymryn dros chwarter staff cyfwerth ag amser llawn).

Ffigur 6.3: Capasiti ychwanegol yn ôl math o ysgol



Ffynhonnell: Data monitro Llywodraeth Cymru

- 6.6.3 Roedd ysgolion uwchradd yn adrodd cyfran uwch o gapasiti ychwanegol fel athrawon nag ysgolion cynradd. Mewn bron bob lleoliad, roedd staff cymorth yn ffurfio cyfran fwy o gapasiti ychwanegol nag athrawon. Ysgolion 3-16 oedd yr unig fath o leoliad lle'r oedd athrawon yn fwy cyffredin na staff cymorth, er y gall hyn fod oherwydd maint llai y samplau.
- 6.6.4 Nid oes ffigurau cymharol ar gael ar gyfer lleoliadau gofal plant gan na chawsant eu cynnwys yn yr ymarferiad monitro. Ar adeg yr arolwg roedd arian y Grant Gwella Addysg yn dal yn y broses o gael ei ddosbarthu.

6.7 Gwneud penderfyniadau

- 6.7.1 Pan gyfwelwyd â hwy, dywedodd arweinwyr ysgolion fod y penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllido wedi cael eu harwain yn

bennaf gan anghenion y dysgwyr, gan ddisgrifio'r brif elfen fel adnabyddiaeth yr ysgolion eu hunain o'u dysgwyr. Mae'r un peth yn wir am lleoliadau gofal plant lle mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud ar lefel y lleoliad gofal plant. Mae'r graddau y mae staff ar gael sy'n gallu cyflawni yn ôl yr anghenion hyn wedi bod yn un o'r prif ffactorau yn y ffurf o gymorth ychwanegol a ddarparwyd. Dywedodd ysgolion a lleoliadau gofal plant eu bod yn aml wedi defnyddio cyllid y ddwy raglen i greu capasiti ychwanegol fel bod aelodau presennol o staff ar gael i gyflwyno cymorth mewn ymateb i Covid-19. Mae cynlluniau hirdymor a oedd yn bod eisoes, yn enwedig rhai'n ymwneud â chohortau bregus, hefyd wedi chwarae rhan yn eu penderfyniadau.

6.7.2 Roedd ysgolion a lleoliadau gofal plant yn esbonio mewn cyfweiliadau sut roeddent yn ystyred amryw o ffactorau ynghylch eu dysgwyr. Roeddent yn cadw grwpiau blaenoriaeth mewn cof ac yn sylwi ar anghenion unigol waeth beth oedd cefndir dysgwyr. Mae'r ffactorau'n cynnwys:

- Llesiant ac ymddygiad
- Diddordeb a brwdfrydedd yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell
- Parodrwydd i ddysgu yn gyffredinol
- Gallu/cynnydd academiaidd
- Y graddau roedd brys am gymorth (ee dysgwyr ym mlwyddyn 11)

6.7.3 Roedd ysgolion a lleoliadau gofal plant yn rhoi sylw hefyd i wybodaeth a dealltwriaeth leol wrth gefnogi dysgwyr. Mewn rhai achosion, roedd anghenion yn cael eu hasesu trwy broses barhaus o brofi ac ailbrofi lleol.

6.8 Cydweithio

6.8.1 Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi annog cydweithio rhwng partneriaid strategol, awdurdodau lleol, Constortia Lleol/partneriaethau, arweinwyr ysgolion a lleoliadau gofal plant, i

gefnogi grantiau'r ddwy raglen. Roeddent hefyd yn annog gweithio mewn clystyrau a dulliau cydweithredol rhwng ysgolion, a rhwng lleoliadau gofal plant, i gronni eu hadnoddau a chyflawni màs critigol wrth dyfu capasiti.

6.8.2 Cyfyngedig fu'r cydweithio ar lefelau ysgolion a lleoliadau gofal plant. Er bod awydd cynyddol i gydweithio a chronni adnoddau, nid oes fawr o dystiolaeth gan yr ysgolion a'r lleoliadau a gyfwelwyd i awgrymu bod hyn yn digwydd mewn ffordd ystyrlon nac effeithiol. Un ffactor a oedd yn cyfyngu ar gydweithio ar y lefel hon oedd yr angen i gynnal swigod dosbarthiadau yn ystod y cyfnod yn union wedi'r cyfnod clo. Roedd swigod yn rhwystro staff rhag gweithio rhwng gwahanol ddosbarthiadau o fewn lleoliadau ac yn gwneud y syniad o staff yn gweithio mewn amryw o leoliadau yn ystod wythnos yn gwbl amhosibl. Roedd patrymau capasiti ychwanegol eisoes wedi cael eu sefydlu unwaith roedd y cyfyngiadau wedi eu codi, a hyd yma, nid ydynt wedi newid i fanteisio ar weithio cydgysylltiedig rhwng amrywiol leoliadau.

6.8.3 Mae rhai awdurdodau lleol wedi rhoi arweiniad pan ddaw'n fater o gydgysylltu a chynllunio gyda phrifathrawon a Consortia Rhanbarthol/partneriaethau, er bod rhanddeiliaid awdurdodau lleol wedi mynegi rhwystredigaeth ar natur 'munud olaf' cydgysylltu yn enwedig gyda Consortia Rhanbarthol/partneriaethau. Mae sefydliadau ambarél wedi gallu darparu llawer mwy o gymorth o fewn sefydliadau gofal plant, gyda'r cydweithio strategol hwn yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

6.9 Galluogwyr a rhwystrau capasiti ychwanegol

Galluogwyr

6.9.1 Un o'r galluogwyr allweddol wrth gyflawni capasiti ychwanegol oedd y tâl ychwanegol trwy fwy o oriau contract. O fewn y sector gofal plant, dywedodd rhanddeiliaid fod oriau rhan-amser yn hyblyg a deniadol i'r rheini sy'n rhieni eu hunain, fodd bynnag, byddai rhai yn hoffi mwy o

oriau i gynyddu eu cyfanswm incwm. Mae staff rhan-amser presennol mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant wedi cael cynnig cynnydd mewn oriau gwaith hyd at amser llawn ac mae hyn wedi bod yn ffynhonnell allweddol o gapasiti ychwaengol. Manteision y dull hwn yw bod staff eisoes yn brofiadol ac wedi setlo yn eu swyddi, a'u bod wedi sefydlu perthynas â dysgwyr ac aelodau eraill o staff. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn rolau cymorth llesiant lle mae'n fuddiol bod yn gyfarwydd â dysgwyr.

- 6.9.2 Mae'r berthynas a oedd rhwng ysgolion a staff cyflenwi cyn y pandemig yn alluogydd pwysig wrth greu capasiti ychwanegol. Fel gyda chynyddu oriau i staff rhan-amser, roedd adnabyddiaeth a bod yn gyfarwydd eisoes â systemau ysgol, timau staff, a dysgwyr yn ei wneud yn llawer haws integreiddio'r staff newydd â'r lleoliad. Gyda lleoliadau i athrawon newydd gymhwyso yn cael eu gwarantu gan Lywodraeth Cymru, roedd ysgolion yn adrodd eu bod wedi gallu defnyddio'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i gadw athrawon newydd gymhwyso ar ôl y cyfnod hwn.

Rhwystrau

- 6.9.3 Roedd ysgolion a lleoliadau gofal plant yn adrodd bod ymdrechion i gynyddu capasiti wedi wynebu rhwystrau difrifol. Mae cystadleuaeth, yn enwedig i staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant, o sectorau eraill. Mae archfarchnadoedd a chadwyni bwyd cyflym wedi cael eu cyflwyno fel enghreifftiau o gyflogwyr sydd bellach yn cynnig gwell cyfraddau'r awr, gyda llai o ofynion o ran cymwysterau, nag addysg a gofal plant. Mae gofal plant yn enwedig wedi wynebu cystadleuaeth ychwanegol gan wasanaethau cludo sydd sydd gallu cynnig mwy o hyblygrwydd mewn oriau gwaith.
- 6.9.4 Gan fod swyddi a gynigir trwy'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn gysylltiedig â'r cyllid, a chan fod cyfanswm cyllid y rhaglen yn cael ei dapro i lawr yn y blynyddoedd nesaf, cynigir contractau am flwyddyn ar y mwyaf, ac weithiau lai, gydag ysgolion a lleoliadau gofal

plant yn dweud mewn cyfweiliadau nad ydynt yn gyffredinol yn gwybod beth fydd dyfodol y grant y tu hwnt i'w dyraniad presennol. Mae hyn yn gwneud cyfleoedd am swyddi o'r fath yn llai deniadol, yn enwedig gan fod yr argyfwng costau byw wedi dilyn y pandemig. Gyda'r grant yn dod mewn camau drwy gydol y flwyddyn, gall yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r broses gyflogi fod yn hirach weithiau na'r ffenestr sydd ar gael i wario'r grant.

6.9.5 Mae staff mewn ysgolion a lleoliadau wedi bod trwy gyfnod o waith anhygoel o ddwys ers mis Mawrth 2020. Nid yw Covid-19 bellach yn achosi tonnau o darfu ar lefel genedlaethol, ond mae'n dal yn broblem i leoliadau unigol ar wahanol adegau. Roedd awdurdodau lleol, ysgolion, a lleoliadau gofal plant yn adrodd bod lefelau uchel o flinder llethol, gyda phroblemau o leoliadau gofal plant yn colli capasiti staff. Y canlyniad yw bod y cyllid grant yn datrys problemau o ran cynnal capasiti staff, ond heb fod o angenrheidrwydd yn cynyddu capasiti o'r hyn oedd yn y gorffennol. Yn ôl awdurdodau lleol a phrifathrawon ysgol, effeithir hefyd ar arweinwyr ysgolion gyda niferoedd mwy yn gadael y proffesiwn a llai o ymgeiswyr am swyddi arwain.

6.9.6 Mae'r graddau y mae staff ar gael yn rhwystr cyffredinol, ac yn un y bernir ei fod yn fwy hirdymor na Covid-19. Mae Covid-19 wedi effeithio'n benodol ar y graddau mae staff cyflenwi ar gael. Yn aml, roedd ysgolion yn dweud eu bod wedi mynd ati'n gyflym yn 2020 i gynnig swyddi contract i staff cyflenwi roedd ganddynt berthynas â hwy eisoes, a bod hyn wedi tynnu'r staff hynny o'r sector i ysgolion eraill. Dywedodd rhanddeiliaid eraill fod staff cyflenwi wedi dewis gadael y sector yn ystod y cyfnod clo cychwynnol oherwydd y diffyg gwaith a oedd ar gael, gan leihau ymhellach y nifer o staff cyflenwi a oedd ar gael. Mae'r tueddiad o staff cyflenwi yn gadael y sector wedi cychwyn gwrthdroi gyda mwy o staff yn cofrestru gyda Cyngor y Gweithlu Addysg yn 2022 nad yn 2021. Dywedodd ysgolion a rhanddeiliaid strategol fod y cynllun lleoli athrawon newydd gymhwyso wedi rhoi cyfleoedd gwarantedig i athrawon newydd gymhwyso gyflawni eu cyfnod sefydlu o fewn amgylchedd cefnogol yn hytrach

nag ar sail cyflenwi. Roedd rhai yn nodi bod y cynllun lleoli wedi cyfyngu'r graddau roedd athrawon cyflenwi ar gael ledled Cymru o gymharu â chyn y pandemig, gan fod bron i 400 o athrawon newydd gymhwyso wedi cael eu lleoli mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22. Roedd cyfle i rai ohonynt barhau yn yr un ysgolion, gyda rhai ysgolion yn defnyddio'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i'w cadw unwaith roedd y cynllun lleoli wedi gorffen.

6.9.7 Mae staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob mathau o ysgolion a lleoliadau gofal plant wedi bod yn anodd eu canfod. Mae hyn yn peri pryderon i randdeiliaid awdurdodau lleol gyda gallu addysgu ac effeithiau canlyniadol hynny ar ddysgwyr. Mewn ardaloedd sydd â dwyseddau is o siaradwyr Cymraeg, mae recriwtio cymorth ychwanegol trwy Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi bod yn her yn sgil niferoedd isel o ymgeiswyr, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Roedd gofynion penodol ysgolion arbennig hefyd yn peri mwy o rwystrau wrth ganfod staff addas.

6.9.8 Cafodd ysgolion a lleoliadau a oedd ymhellach i ffwrdd oddi wrth ganolfannau trefol lai o lwyddiant wrth gyflogi staff newydd. Mae'r lleoliadau hyn yn fwy tebygol o fod yn llai o ran maint, gan olygu symiau llai o grant. I'r lleoliadau lleiaf, ni fyddai'r cyllid ond yn hwyluso ychydig oriau o gapasiti ychwanegol yr wythnos, ac felly nid oedd yn annog ysgolion i greu swyddi newydd y byddai'n rhaid eu hariannu o ffynonellau newydd. Lle'r oedd swyddi gwag ar gael, byddent wedi bod yn fwy anodd eu llenwi mewn ardaloedd gwledig o gymaru ag ardaloedd trefol. Roedd y ffactorau posibl a awgrymwyd am hyn gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnwys mwy o amser a phellter teithio, gyda mwy o weithwyr yn dewis cael eu lleoli yn nes adref ers mis Mawrth 2020, apêl gyffredinol gwahanol ardaloedd i weithio a byw ynddynt, yn enwedig ymysg athrawon iau newydd gymhwyso sy'n ffafrio canolfannau trefol mawr, a chost uwch byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell.

6.9.9 Mae galluogi cynnydd mewn capasiti wedi cael ei lesteirio gan barhad mewn absenoldebau staff yn sgil Covid-19. Roedd hyn yn golygu bod

y capasiti ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio i gynnal y sefyllfa fel yr oedd yn hytrach nag ymdrin ag anghenion ychwanegol.

6.10 Effaith

- 6.10.1 Cafodd y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cyfateb yn fras ag angen sydd wedi ei adnabod yn lleol a chohortau blaenoriaeth cenedlaethol. Heblaw y cohortau blaenoriaeth, nid oedd dim tystiolaeth gan yr ysgolion yr ymgynghorwyd a hwy o unrhyw grwpiau penodol a oedd o bryder. Cafodd yr achosion o'r angen mwyaf eu hadnabod amlaf ar sail dysgwr unigol.
- 6.10.2 Roedd yn arbennig o anodd ailennyn brwdfrydedd dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn union ar ôl y cyfnod clo; fodd bynnag, mae hyn wedi newid ers hynny. Dywed ysgolion fod dysgwyr o deuluoedd mwy breintiedig yn gymdeithasol ac economaidd wedi ymddieithrio i raddau mwy na'r disgwyl. Mae graddau angen dysgwyr wedi cynyddu oherwydd y pandemig Covid-19 ac mae rhai lleoliadau yn teimlo eu bod yn ei chael yn anodd cefnogi dysgwyr yn gyffredinol.
- 6.10.3 Unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig sydd wedi adrodd yr lefelau isaf o darfu ar ddatblygiad a chynnydd dysgwyr o gymharu â lefelau cyn y pandemig. Roedd yr unedau cyfeirio disgyblion a'r ysgolion arbennig eu hunain yn credu mai'r rheswm dros hyn oedd y cymorth roedd eu dysgwyr yn ei dderbyn eisoes yn unigoledd iawn, a bod y ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddysgwyr yn y lleoliadau hyn yn chwarae rhan llawer mwy uniongyrchol yn eu dysgu. Roedd unedau cyfeirio disgyblion yn adrodd am niferoedd cynyddol o ddysgwyr iau yn cael eu cyfeirio at eu darpariaeth oherwydd problemau ymddygiad yn dod i'r amlwg mewn ffyrdd mewn eithafol, yn rhannol oherwydd effeithiau'r cyfnod clo ar gymdeithasu. Dywedodd un uned cyfeirio disgyblion a gyfwelwyd fod y cymorth ychwanegol a wnaed yn bosibl trwy'r rhaglen wedi galluogi ailintegreiddio yn ôl i addysg brif ffrwd i

ddysgwyr yn oedrannau uwch addysg gynnar (blynyddoedd ysgol 1 a 2).

- 6.10.4 Mae'r tarfu a achoswyd gan Covid-19 wedi effeithio'n benodol ar sgiliau Cymraeg dysgwyr. Mewn addysg gynnar, mae hyn yn adlewyrchu'r adroddiadau helaeth gan staff o lefelau is na'r disgwyl o Leferydd, iaith a Chyfathrebu ym mhob iaith, mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant. Roedd lleoliadau gofal plant, ac ysgolion sydd â grwpiau oedran addysg gynnar, yn adrodd bod sgiliau dysgwyr yn eu hiaith gyntaf wedi gostwng o gymharu â'r hyn oeddent cyn 2020. Nid yw plant mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg yn clywed cymaint o Gymraeg achlysurol â chyn y pandemig, gan fod y pwyslais yn dal i fod ar Leferydd, iaith a Chyfathrebu yn y Saesneg yn gyntaf. Mae'r tarfu ar addysg wedi effeithio'n amlwg ar ddysgwyr o bob oed sydd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn clywed fawr o Gymraeg y tu allan i'r lleoliad gofal plant a'r ysgol. Roedd ysgolion a lleoliadau yn pwysleisio'r rôl bwysig a chwaraewyd gan gyllid y ddwy raglen wrth fynd i'r afael â phroblemau Leferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r anawsterau wrth recriwtio staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi lleihau effaith y grant mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg. Lle'r oedd lleoliadau gofal plant yn y cwestiwn, amlygwyd bod llawer o adnoddau masnachol ar gael yn y Saesneg yn unig ac mai cyfyngedig oedd y dewisiadau ar gyfer cymorth ac ymyraethau ehangach yn y Gymraeg.
- 6.10.5 Dywedodd rhanddeiliaid mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant mai cymorth llesiant oedd y dull mwyaf effeithiol o alluogi datblygiad plant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal plant, ac mewn ysgolion. Dywedwyd bod rhwystrau rhag dysgu a datblygu yn fwy sylfaenol na cholli gwersi yn unig, rhywbeth mae darpariaeth llesiant yn allweddol wrth fynd i'r afael â hwy.
- 6.10.6 Yr arfer orau er mwyn cynyddu effaith y cyllid yw recriwtio staff sydd â gweledigaeth o sut i alluogi cynyddu capasiti. Mae hyn yn gofyn am gynllun ar sawl lefel sy'n dangos yn glir faint o gapasiti ychwanegol sy'n cael ei greu, a beth mae'r capasiti i fod i'w gyflawni. Yr hyn sydd

allweddol yw bod yr effaith fwyaf yn cael ei chreu pan fo'r capasiti ychwanegol yn cael ei dargedu i gefnogi ymyraethau dysgu cydnabyddedig, boed i unigolion, grwpiau bach neu ddosbarthiadau.

6.11 Canllawiau a chydymffurfiaeth

- 6.11.1 Mae ysgolion a rhanddeiliaid eraill o'r farn fod y canllawiau gan Lywodraeth Cymru o safon uchel iawn. Mae'r ffurflenni a'r canllawiau yn syml gydag eglurder ynghylch diben y grantiau. Mae ffiniau eu cymhwysedd hefyd yn eglur ac yn cael eu deall yn helaeth.
- 6.11.2 Un peth mae rhanddeiliaid yn ei werthfawrogi fel rhinwedd allweddol yw'r graddau uchel canfyddedig o hyblygrwydd a ganiateir wrth adnabod anghenion lleol a'r strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol i'w diwallu. Mae pob grŵp o randdeiliaid yn teimlo bod hyn yn addas yn wyneb yr angen i gefnogi pob dysgwr yn unigol. Roedd ysgolion a lleoliadau gofal plant yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn yn fawr ac yn cymharu hyn yn ffafriol â rhai rhaglenni yn y gorffennol er na roddwyd enghreifftiau penodol ganddynt.
- 6.11.3 Roedd lleoliadau'n teimlo'n ddigon gwybodus am yr amrywiol bosibiliadau gyda'r cyllid, ac roeddent yn gallu gwneud y penderfyniadau gofynnol wrth ddefnyddio'r wybodaeth a oedd ganddynt.

6.12 Gwerth am arian

- 6.12.1 O'r dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'n bosibl cyflawni asesiad diffiniadol o werth am arian. Mae'n rhy gynnar i lawer o'r dangosyddion cyfrifiadwy gael eu mesur. Mae dangosyddion procsi posibl, fel canlyniadau TGAU i'r grŵp blaenoriaeth sy'n sefyll arholiadau, yn agored i ffactorau allanol sy'n anodd eu gwahanu gyda chanlyniadau hyderus. Yn ogystal, lle bo gwerthuso'n digwydd mewn lleoliadau unigol, gall y manylder sydd ar gael a'r dulliau a

ddefnyddiwyd fod yn wahanol. Er y gallai fod yn bosibl mesur cynnydd unigolyn, mae cyffredinolli ledled Cymru'n peri problemau.

6.12.2 Yn ystod misoedd cyntaf y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, lleihawyd effeithlonrwydd y cyllid mewn ysgolion gan y defnydd o asiantaethau addysgu i gaffael staff ychwanegol. O fewn yr arfer hon, talwyd ffioedd asiantaethau gan grant y rhaglen. Nid ymddengys fod hyn yn broblem fawr diolch i'r dull mwy cyffredin o ymestyn oriau contractau rhan-amser yn hytrach na chyflogi staff newydd i'r ysgol. Gyda chyllid y grantiau yn parhau, mae ysgolion a lleoliadau wedi bod yn fwy parod cynnig eu contractau cyflogaeth eu hunain, er bod y rhain yn rhai tymor byr. Mae hyn wedi digwydd law yn llaw â'r symud oddi wrth ddefnyddio staff ychwanegol i gyflenwi dros absenoldebau staff yn sgil Covid-19 at ddefnyddio capasiti ychwanegol i ddarparu cymorth i ddysgwyr.

6.12.3 O gymharu â meysydd o'r cwricwlwm megis llythrennedd a rhifedd, mae'n fwy anodd fyth mesur yr effaith ar lesiant dysgwyr. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn y gwerthusiad, gellir dweud am lawer o'r ymyraethau i gefnogi llesiant, a'r effeithiau canlyniadol ar barodrwydd i ddysgu a meysydd eraill o'r cwricwlwm, na fyddent wedi digwydd heb y ddwy raglen.

7. Y Dyfodol

7.1 Trosolwg

- 7.1.1 Mae'n hanfodol deall y bydd effeithiau Covid-19 ar ddysgwyr, ac ar ysgolion a lleoliadau gofal plant, yn parhau yn yr hirdymor. Bydd y profiad o darfu ar addysg yn aros gyda dysgwyr, a bydd y gweithlu yn wynebu tarfu parhaus gan absenoldebau Covid-19. Mae addysgu'n parhau i addasu i ymateb i'r pwysau hyn.
- 7.1.2 Mae'r cynnydd mewn capasiti staff yn sgil y ddwy raglen - Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Blynyddoedd Cynnar - yn gyfan gwbl ddibynnol ar y cyllid grant. Bydd y cynnydd mewn capasiti yn dod i ben pan ddaw'r rhaglen i ben. Nid oes cynllun ar hyn o bryd ymysg ysgolion sy'n ymestyn y tu hwnt i'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.
- 7.1.3 Gyda'r pwyslais pendant hyd yma wedi bod ar agweddau sylfaenol addysg, gan gynnwys llesiant a pharodrwydd i ddysgu, dim ond cychwyn mae'r sylw ar gyflawniad a chynnydd. Teimlad rhanddeiliaid yw bod pob cohort ar ei hôl hi mewn datblygiad a dysgu ar bob cam o gymharu â'r blynyddoedd cyn y pandemig.
- 7.1.4 Mae pwysau newydd, a phwysau sy'n parhau, ar staff gofal plant ac ysgolion. Mae lefelau blinder yn uchel, ac mae effeithiau'r argyfwng costau byw yn effeithio ymhellach ar staff fel ffactor allanol. Mae cyfleoedd cyflogaeth eraill yn gallu cynnig naill ai dâl gwell neu amodau gwaith mwy hyblyg o gymharu â chontractau tymor byr a alluogwyd gan gyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.
- 7.1.5 Ers mis Mawrth 2020, mae hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer staff ysgolion wedi mynd trwy newid gan y bu'n rhaid i bob rhaglen arweinyddiaeth gael ei chyflwyno ar-lein. Dywed awdurdodau lleol fod uwch arweinwyr mewn ysgolion yn gadael y sector. Mae hyn yn bennaf oherwydd ymddeoliad, ond mae awdurdodau lleol wedi gweld enghreifftiau o flinder llethol hefyd. Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae swyddi arweinwyr hefyd yn denu llai o ymgeiswyr. Pan fo staff yn camu i fyny i swyddi arweinyddiaeth mae hyn yn creu bylchau mewn

arweinyddiaeth ganol o fewn ysgolion. Er nad yw hyn yn argyfwng eto, mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, mae disgwyl i ganran uchel o arweinwyr ysgolion adael dros y pum mlynedd nesaf – rhywbeth mae angen i'r sector baratoi ar ei gyfer.

7.2 Parhau'r gwaith

Parhau llwyddiant

7.2.1 Yr agweddau mwyaf llwyddiannus o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yr argymhellir eu parhau yw:

- canolbwyntio ar ddiwallu angen, fel y'i diffinir ar lefel ysgol a lleoliad gofal plant, ar y cyd â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol
- hyblygrwydd y cyflwyno ar lefel yr ysgol a'r lleoliad gofal plant i ddiwallu eu hanghenion yn y ffordd fwyaf effeithiol gyda'r capasiti ychwanegol sydd ar gael
- cynnwys cymorth i leoliadau addysg gynnar nas cynhelir yn ogystal â rhai a gynhelir
- arddull glir y canllawiau. Caiff y canllawiau presennol eu deall yn helaeth diolch i'w heglurder syml

Cynyddu effaith

7.2.2 Gellid cynyddu effaith y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau trwy gymryd y camau canlynol:

- rhoi mwy o wybodaeth ynghynt i leoliadau am ddyfodol y rhaglen i'w galluogi i gynllunio yn fwy hirdymor, megis cyflogi staff i fod yn eu swyddi mewn pryd a chynnig contractau tymor hirach er mwyn denu ymgeiswyr.
- pennu bod unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan y grantiau i'w ddefnyddio ar gyfer cynyddu capasiti staff gyda dysgwyr, nid uwchsgilio'r gweithlu presennol yn unig.
- creu cysylltiadau agosach gyda rhaglenni sy'n hyrwyddo cynnydd mewn niferoedd staff. Er enghraifft, y rheini sy'n

cefnogi mynediad i weithluoedd y sectorau gofal plant ac ysgolion.

- 7.2.3 Un maes pwysig a all gynyddu effaith y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yw mwy o gydweithio ymysg ysgolion a lleoliadau gofal plant. Roedd gweithio mewn clystyrau wedi cael ei gynllunio'n wreiddiol fel rhan o'r rhaglen, er enghraifft, cyllid ac aelod ychwanegol o staff ar y cyd. Nid oedd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau ar gymysgu yn gynharach yn y pandemig, ac erbyn yr adeg y cafodd y mesurau hyn eu codi, roedd pob lleoliad eisoes yn dilyn ei gynllun gweithredu ei hun ar gyfer y grant. Mae angen canolbwyntio ar gydweithio er mwyn annog manteisio ar weithio mewn clystyrau yn unol â'r cynllun gwreiddiol.
- 7.2.4 Maint y lleoliad yw'r ffactor pwysicaf o hyd wrth benderfynu'r swm o gyllid a dderbynnir. Mae hyn yn arwain at y lleoliadau lleiaf yn derbyn symiau sy'n gyfwerth â ffractsiynau o swydd amser llawn. Mae'r dewsiadau sydd ar gael i'r lleoliadau hyn i gefnogi dysgwyr yn llai o gymharu â lleoliadau mwy, gyda dibyniaeth lawer mwy ar ymestyn contractau presennol neu ddibynnu ar gyllid arall i ategu grantiau'r ddwy raglen, nad yw'n bosibl bob amser. Dylid archwilio'r posibilrwydd o isafswm grant, trwy ystyried y capasiti ychwanegol mewn termau cyfwerth ag amser llawn, fel y gall dysgwyr ym mhob lleoliad elwa ar gynydd ystyrlon mewn capasiti staff.
- 7.2.5 Mae lleoliadau mewn ardaloedd gwledig yn wynebu heriau wrth gynyddu capasiti gan eu bod yn debygol o fod yn llai o ran maint ac felly'n derbyn symiau llai o gyllid, gyda phellteroedd mwy rhwng lleoliadau yn gwneud gweithio mewn clystyrau yn fwy anodd. Mae lleoliadau gwledig wedi cael anhawster wrth recriwtio staff o bosibl yn sgil ffactorau allanol megis costau byw uwch neu'r apêl o fyw mewn ardaloedd mwy trefol (yn enwedig i athrawon newydd gymhwyso). Mae ardaloedd gwledig sydd â dwyseddau isel o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned yn ei chael yn gynyddol anodd wrth geisio staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan beri risg i ansawdd addysgu. Gellid ystyried rhywfaint o bwysoli ychwanegol wrth gyfrifo

cyllid ar sail natur wledig ardal er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn.

- 7.2.6 Dywedodd rhai ysgolion, a rhanddeiliaid strategol fod defnyddio prydau ysgol am ddim fel dangosydd procsi ar gyfer dysgwyr bregus a difreintiedig yn fesur defnyddiol, ond amherffaith. Mae'r argyfwng costau byw yn gwneud y ffin ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn fwy amwys a bydd hyn, ynghyd â gwaddol Covid-19, yn effeithio ar ddysgwyr. Wrth i brydau ysgol am ddim gael eu cyflwyno i bawb, bydd y defnydd o brydau ysgol am ddim fel procsi yn lleihau gan nad oes angen mwyach o rieni gofrestru eu cymhwysedd. Awgrymwyd gan y rheini a deimlai fel hyn y gellid cynrychioli angen economaidd-gymdeithasol yn well trwy ddefnyddio'r Mynegeion Amddifadedd Lluosog fel y mynegeion i ystyried mwy o ffactorau.³⁴
- 7.2.7 Fel yr amlygwyd, un o gryfderau allweddol Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau fu'r hyblygrwydd i ddefnyddio'r capasiti ychwanegol i ddiwallu anghenion lleol fel y'u hadnabuwyd gan y lleoliadau eu hunain. Byddai dull Cymru gyfan o asesu angen ar lefel poblogaeth ysgolion yn ei gwneud yn bosibl i ddyraniadau grant ystyried yr anghenion hyn. Gellir defnyddio hyn wedyn gan ysgolion a lleoliadau gofal plant i asesu anghenion eu dysgwyr mewn ffordd a weithredir ymhobman yng Nghymru. Gallai ysgolion ddadansoddi eu poblogaethau ar sail rhestr ehangach o nodweddion ac yna gall y rhaglen ddyrannu symiau grant ar sail y proffil manwl. Gallai lefelau o gyllid wedyn adlewyrchu anghenion dysgwyr mewn mwy o fanylder. Byddai'n rhaid cymryd gofal na fyddai dull o'r fath yn agored i gael ei gamddefnyddio a sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yr un fath ledled Cymru. Gallai fod defnydd ychwanegol i ddull o'r fath ar gyfer rhaglenni eraill hefyd.
- 7.2.8 Mae'n amlwg wrth eu gwerthuso'n ansoddol fod y ddwy raglen wedi bod o fudd i ddysgwyr a lleoliadau. Llesiant a pharodwyd i ddysgu sydd wedi cael eu targedu'n bennaf gan cymorth ychwanegol hyd yma. Mae lle i fwy o fonitro meintiol o'r modd y gweithredwyd y

³⁴ Mae'r gwerthusiad yn cydnabod bod hyn yn golygu heriau eraill gan fod Mynegai Amddifadedd Lluosog llawn Cymru yn cael ei ddiweddarau pob 4 i 5 mlynedd.

rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau er mwyn dangos a deall ei heffaith yn well. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol i fonitro meintiol y rhaglen gychwyn gyda gofal plant gan fod gwahaniaeth ar hyn o bryd rhwng yr wybodaeth am ysgolion a lleoliadau gofal plant. Yn unol â'r math o ganllawiau sydd wedi cael eu croesawu, bydd angen i hyn fod yn eglur i'w ddeall ac yn hawdd i'w weithredu ac nid yn faich ychwanegol.

- 7.2.9 Y dangosyddion yr awgrymwyd eu casglu fel safon yw lefelau capasiti ychwanegol fesul lleoliad wedi eu mesur fel cyfwerth ag amser llawn, ac fel nifer o staff (er enghraifft cynnydd yn y rhai o gyflogir neu gynyddu oriau contract). Fel gyda'r ymarferiad monitro, dylai lleoliadau adrodd sut mae'r capasiti ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio yn ôl categorïau safonol. Byddai casglu'r data hwn mewn ffordd safonol yn galluogi iddo gael ei ddadansoddi law yn llaw â chyllid a dderbyniwyd. Gellid dangos effaith hefyd trwy ddefnyddio setiau data addas-i-oedran megis lefelau presenoldeb (fel procsi ar gyfer parodrwydd i ddysgu), cynnydd a chyflawniadau fel y dangosir mewn asesiadau neu arholiadau.

Atodiad A: Astudiaethau Achos

Maes Derw, Uned Cyfeirio Disgyblion

Nifer o staff a gefnogwyd: Un Cynorthwydd Addysgu
Lefel 4 amser llawn (rhan-ariannwyd)



Uned Cyfeirio Disgyblion, cyfrwng Saesneg, yn Abertawe yw Maes Derw. Mae ei ddysgwyr yn rhai grwpiau oedran cynradd ac uwchradd.

Yn y flwyddyn academaidd 2021/22 mae'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi rhan-ariannu cynorthwydd addysg sy'n rhoi cymorth wedi ei dargedu yn y Cyfnod Sylfaen³⁵. Mae'r dysgwyr wedi cael eu cyfeirio at y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion gan eu bod wedi ei chael yn anodd ailgynefino â'u lleoliadau prif ffrwd ar ôl y cyfnod clo. Mae chwe dysgwr yn y grŵp a dargedwyd ar gyfer cymorth ychwanegol, pob un ohonynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac mae pob un yn cael darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan dri Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac mae gan dri Gynlluniau Datblygu Unigol Awdurdod Lleol.

Mae'r Cynorthwydd Addysgu wedi gweithio gyda'r dysgwyr i ddatblygu strategaethau i reoleiddio ymddygiad, gwella sgiliau cymdeithasol, a dechrau mynegi eu hemosiynau a gofyn am gymorth pa fo angen. O ganlyniad, mae ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol wedi lleihau. Mae tri o'r grŵp wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'u presenoldeb a'u parodrwydd i ddysgu i'r pwynt maent wedi cychwyn ailintegreiddio'n ôl i'w hysgolion prif-ffrwd yn rhan-amser.

Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph's

Nifer o staff a gefnogwyd: 1 Cynorthwydd Cymorth
Llythrennedd Emosiynol. 1 Cynorthwydd Addysgu



³⁵ Addysg gynnar cyn mis Medi 2022

Ysgol gynradd Gatholig gyfrwng Saesneg yn Nhredegar, Blaenau Gwent yw St Joseph's, gyda 111 o ddysgwyr. Mae ei chyfradd gyfartalog o brydau ysgol am ddim yn 46 y cant. Mae gan 11.9 o ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).³⁶

Wrth i'r pandemig weld cynnydd mawr mewn anghenion cymdeithasol ac emosiynol, cafodd y dysgwyr Cyfnod Sylfaen a'u rhieni eu cefnogi gan y Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol i ddal ati a chadw cysylltiad â'u hathrawon dosbarth, lle adnabuwyd yr angen. Cafodd Cynorthwydd Addysgu arall ei ran-ariannu gan y ddwy raglen trwy gynyddu oriau aelod rhan-amser o staff i adnabod y dysgwyr a oedd â'r mwyaf o risg ac i ddarparu gweithgareddau ychwanegol rhifedd a llythrennedd.

Cynyddwyd brwdfrydedd trwy ganolbwyntio ar hwyl dysgu gyda heriau dyddiol a gweithgareddau 'Dydd Gwener Hwyl'. Darparwyd fideos a gyn-recordiwyd i rieni i'w cyflwyno hwy i weithgareddau llythrennedd a rhifedd a strategaethau i'w helpu hwy gyda'u plant. Cafodd grwpiau bach o ddysgwyr eu cefnogi mewn modd dwysach gyda gwahanol weithgareddau dysgu ffonig. Roedd y capasiti ychwanegol yn galluogi Arweinydd y Cyfnod Sylfaen i gynhyrchu "pecynnau llafaredd" i deuluoedd iau, a oedd yn canolbwyntio ar ryngweithio rhwng rhieni a phlant gartref a hefyd i roi sesiynau teuluol i rieni pryderus. Mae'r rhain wedi profi'n boblogaidd gyda dysgwyr a'u teuluoedd.

Ysgol Treffynon, Ysgol Uwchradd



Nifer o staff a gefnogwyd: cyfanswm o 5 tiwtor ers 2020, a staff cyflenwi.

Ysgol uwchradd gyfrwng Saesneg yn Nhreffynnon, Sir y Fflint yw Ysgol Treffynnon, ac iddi 525 o ddysgwyr. Mae ei chyfradd gyfartalog dair blynedd o brydau ysgol am ddim y 32 y cant. Mae gan 19.3 o ddysgwyr Cynllun

³⁶ PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

Gweithredu gan yr Ysgol, 3.4 y cant Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac mae gan 2.7 y cant ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.³⁷

Mae'r anallu i ddarparu contractau parhaol i staff gyda'r cyllid grant wedi golygu nad yw'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn mynd i'r afael â'r anawsterau gyda recriwtio athrawon. Ers 2020, mae grant y rhaglen wedi talu am gyfanswm o bum contract un-flwyddyn i diwtoriaid. Ymadawyr ysgol â chanlyniadau lefel-A da yw'r rhain sy'n dymuno cymryd blwyddyn allan cyn cychwyn yn y brifysgol. Mae capasiti ychwanegol wedi cael ei greu trwy ddefnyddio cyllid y rhaglen i dalu am staff cyflenwi fel bo'r angen. Mae hyn yn rhyddhau arbenigwyr pwnc i weithio gyda dysgwyr a dargedir gyda sesiynau adolygu ychwanegol. Defnyddir staff cyflenwi hefyd i alluogi Cynorthwywyr Addysgu'r ysgolion i dreulio amser gyda dysgwyr ar ddarpariaeth arall o'r cwricwlwm. Mae'r dysgwyr hyn, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gallu elwa o'r berthynas gadarnhaol sydd ganddynt eisoes â staff yr ysgol.

Yn 2022, fe wnaeth canlyniadau blwyddyn 11 wella ar 2019, yn rhannol o'r cymorth dwys gan y tiwtoriaid gyda darllen a deall iaith papurau arholiad. Gweithiodd tiwtoriaid gyda grwpiau penodol o ddysgwyr gan ddefnyddio dull mentora gan gymheiriaid, gyda mynediad ar gael iddynt i bob dysgwr blwyddyn 11. Rhoddodd y ddarpariaeth hon gyfleoedd ychwanegol i sgwrsio yn y Gymraeg yn ogystal. Gan fod y tiwtoriaid yn nes mewn oedran i'r dysgwyr blwyddyn 11, roedd awyrgylch hamddenol ac anffurfiol i'r sesiynau llafaredd yn y Saesneg a'r Gymraeg. Gweithiodd y tiwtoriaid gyda dysgwyr blwyddyn 7 mewn dull mwy traddodiadol oedolyn/dysgwr. Roedd hyn yn canolbwyntio ar llythrennedd a rhifedd a oedd yn helpu i liniaru effaith y dysgu a gollwyd yn sgil Covid-19. Roedd y cwricwlwm amgen yn lleihau gwaharddiadau ac yn gwella agweddau a brwdfrydedd ymysg dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a oedd mewn perygl o ymddieithrio a methu arholiadau. Mae cefnogaeth aelodau o staff sydd eisoes â pherthynas â dysgwyr, a alluogwyd gan y rhaglen, yn rhan hanfodol o'r gwelliant hwn.

³⁷ PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi



Nifer o staff a gefnogwyd: 23 i gyd, gan gynnwys:

- 1 x Cydgysylltydd Dysgu o Bell – Rheolwr Gwybodaeth a Chyfathrebu
- 2 x goruchwylwyr cyflenwi
- 2 x Prifathrawon Cynorthwyol Cyswllt
- 10 x Mentoriaid Adfer Cynnydd

Ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg, yn Llys-faen, Caerdydd, yw Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, gyda 1,076 o ddysgwyr. Ei chyfradd gyfartalog dair blynedd o brydau ysgol am ddim yw 15.1 y cant. Mae gan 2.6 y cant o'r dysgwyr gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae gan 1.8 y cant ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 0.9 y cant Gynllun Datblygu Unigol Anghenion Dysgu Ychwanegol.³⁸ Mae'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi safonau wedi darparu cyllid i gefnogi 23 o staff dros y tair blynedd. Mae'r rhain wedi cynnwys swydd cydgysylltydd dysgu o bell i arwain ar ddarpariaeth dysgu o bell a sicrhau ansawdd ei waith i ddysgwyr sy'n ynysu. Mae'r ddau oruchwylwr cyflenwi i weithredu fel ffynhonnell fewnol o staff cyflenwi i gynnal y ddarpariaeth pan fod staff eraill yn absennol. Mae dau brifathro cynorthwyol cyswllt yn goruwchwylio ymyraethau sydd wedi eu targedu at ddysgwyr mewn angen. Fel rhan o'u rôl, maent yn rheoli 10 o fentoriaid adfer cynnydd. Roedd y mentoriaid yn adnabod 40 o fyfyrwyr ar draws pob grŵp blwyddyn sydd angen cymorth, yn cyd-drafod â hwy a'u teuluoedd, a datblygu cynlluniau cymorth unigol. Rhennir y cynlluniau hyn gyda staff yr ysgol ac nid ydynt yn lleihau'r amser gwersi i ddysgwyr nac athrawon.

Mae gweithgareddau pontio ychwanegol wedi cael eu cynnal gyda dysgwyr bregus sy'n cychwyn blwyddyn 7 gan ddefnyddio'r capasiti ychwanegol. Mae ymyraethau grwpiau bach neu 1-i-1 wedi helpu cefnogi mathemateg a darllen

³⁸ PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

ymsg dysgwyr sy'n gweithio islaw disgwyliadau'n ymwneud â'u hoedran neu ddysgwyr ag anghenion uchel gyda Chynllun Gofal Iechyd Addysg.

Mae'r strategaethau hyn wedi cael cyfres o effeithiau. Mae darpariaeth gyson o ansawdd uchel wedi cael ei ddarparu i bob myfyriwr sy'n ynysu. Anaml y bu achosion o gau dosbarthiadau na'r ysgol gyfan oherwydd absenoldebau staff, ac mae hyn wedi arwain at gynnal amser ystafell ddosbarth i ddysgwyr. Mae presenoldeb staff a dysgwyr wedi parhau'n uchel diolch i gymorth iechyd meddwl a llesiant. Ymsg dysgwyr a dargedwyd, mae eu gallu mewn darllen, deall a gwybodaeth ffonig a rhifedd wedi cynyddu law yn llaw â hyder. Mae hyder cryf ymsg staff fod bylchau mewn dysgu a achoswyd gan y cyfnodau clo cenedlaethol wedi cau. Mae'r mwyafrif o ganlyniadau amrwd TGAU yn 2022 yn rhagori ar 2019, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, a 2021, yn well na chyfartaleddau cenedlaethol. O'r 42 o ddysgwyr a dargedwyd y rhagamcanwyd y byddent yn methu'r rhan fwyaf o'u pynciau, cyflawnodd 87 y cant bum gradd A*-C.

Ysgol Gynradd Hengastell

Nifer o staff a gefnogwyd: 3

- Swyddog Cyswllt Teuluol
- 2 x Hyrwyddwyr Llesiant



Ysgol gynradd gyfrwng Saesneg ym Mhen-y-bont ac iddi 445 o ddysgwyr yw Hengastell. Mae ei chyfradd gyfartalog o brydau ysgol am ddim yn 8.9 y cant. Mae gan 2.1 o'r dysgwyr Gynllun Datblygu Unigol Anghenion Dysgu Ychwanegol.³⁹

Mae'r hyrwyddwyr llesiant wedi gweithio gyda phob grŵp blwyddyn ar sgiliau byw allweddol. Mae'r dysgwyr wedi cael profiad o goginio, tyfu llysiau, gwnïo sylfaenol, a gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n iach. Mae ci llesiant bellach yn rhan o'r tîm, yn cefnogi dysgwyr mwy pryderus sy'n cyrraedd yr ysgol bob bore, ac yn gweithio gyda grwpiau targed yn ystod sesiynau Ffynnu

³⁹ PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

a Llesiant. Mae'r grantiau wedi cael eu defnyddio hefyd i gyflogi swyddog cyswllt teuluol sydd wedi ei hyfforddi yn y dull Ffynnu o weithio gyda dysgwyr a'u teuluoedd. Maent yn mynd i'r afael â phroblemau presenoldeb gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys 1-i-1, grwpiau anogaeth, cyfarfodydd presenoldeb, a chysylltu ag asiantaethau allanol.

Mae rhaglen gyfoethogi strwythuredig bellach yn cael ei chyflwyno bob pwn Gwener gan holl staff yr ysgol. Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau, sgiliau a phrofiadau. Trwyddi mae pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd. Caiff gweithwyr proffesiynol allanol eu cynnwys yn aml, ac mae rhwydwaith o aelodau cymunedau erbyn hyn. Mae perthynas agosach rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned. Mae presenoldeb wedi gwella drwy'r holl ysgol, yn fwyaf nodedig ymysg dysgwyr sydd â phryderon ynghylch mynd i'r ysgol. Mae ymddygiad wedi gwella gyda Ffynnu ac mae sesiynau 1-i-1 ar gael i gael eu harchebu neu ar unwaith.

Cylch Meithrin Felinfoel, Gofal Plant

Nifer o staff a gefnogwyd: 5

Cylch meithrin cyfrwng Cymraeg a ariennir ond nas cynhelir yn Llanelli yw Cylch Meithrin Felinfoel, sydd â lleoedd i 24 o ddysgwyr.

Gan ganolbwyntio ar y dyfodol, mae cyllid y ddwy raglen wedi cael ei ddefnyddio i helpu pum aelod o staff i feithrin sgiliau digidol, hyder, a sgiliau dysgu annibynnol. Mae dysgwyr wedi caffael sgiliau, gwybodaeth, ac agweddau i'w galluogi i fod yn ddefnyddwyr hyderus, creadigol a beirniadol o dechnolegau a systemau. Barn Cylch Meithrin Felinfoel oedd bod y sgiliau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi plant i gael y potensial i lwyddo mewn amgylcheddau dysgu cyfoes, yn enwedig gyda mwy o ddibyniaeth ar offer digidol ers 2020.

Mae'r capasiti ychwanegol hefyd wedi galluogi Cylch Meithrin Felinfoel i baratoi'n llawn ar gyfer cychwyn y Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022.

Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-maen

Nifer o staff a gefnogwyd: 3



Ysgol gynradd gymunedol gyfrwng Saesneg yw Priordy Cil-maen (Monkton Priory) yng Nghil-maen, Sir Benfro, gyda 225 o ddysgwyr. Mae ei chyfradd gyfartalog dair-blynedd o brydau ysgol am ddim yn 48.8 y cant. Mae gan 20.6 y cant o'r dysgwr Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol, 19.4 y cant Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac mae gan 3.8 y cant ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.⁴⁰ Cafodd un athro newydd gymhwyso, i weithio gyda phob dysgwr, ac un cynorthwydd addysgu, i ganolbwyntio ar ddysgu awyr agored, eu hariannu fel rhan o grantiau'r ddwy raglen. Targedwyd dysgwyr Cyfnod Sylfaen â rhaglen sgiliau echddygol manwl a bras a ddatblygwyd gan arweinydd ieuchyd a llesiant yr ysgol. Darparwyd cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr, gan ddefnyddio amryw raglenni:

- Rhaglen Dysgu Carlam. Ugain o ddysgwyr y flwyddyn dros dair blynedd.
- Rhifedd trwy ddefnyddio rhaglen International Dyslexia Learning Solutions Limited (IDL). Deugain o ddysgwyr dros un flwyddyn, gyda thua'u hanner wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai mwy abl a dawnus.
- Ymyrraeth bwrpasol Mathemateg. Deugain o ddysgwyr dros un flwyddyn.
- Cymhwysedd digidol trwy brosiectau cysylltiedig â thema ysgol gyfan. Pedwar ugain o ddysgwyr dros un flwyddyn.
- Rhaglen bwrpasol Gweithgarwch Corfforol a Llesiant a ddyfeiswyd gan arweinydd ieuchyd a llesiant yr ysgol. Cant a hanner o ddysgwyr y flwyddyn dros ddwy flynedd.
- Warden Awyr Agored y Priordy. 200 o ddysgwyr dros un flwyddyn.

⁴⁰ PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

Mae effaith y cymorth hwn wedi bod yn ddramatig. Yn sgil yr IDL mae llawer o ddysgwyr wedi gwneud cynnydd sy'n fwy na 2 is-lefel. Trwy gymorth llythrennedd a dargedwyd dros ddeg wythnos, gwnaed y graddau canlynol o gynnydd:

- un flwyddyn i 13 o ddysgwyr
- dwy flynedd i 14 o ddysgwyr
- tair blynedd i bum dysgwr,
- pedair blynedd i dri dysgwr,
- cynnydd o bum mlynedd i un dysgwr.

Mae'r llwyddiannau hyn, a'r ystafell ddosbarth awyr agored, wedi gwella llesiant, gan roi cyfleoedd i adael i ddysgwyr ddathlu'r hyn maent wedi ei wneud, datblygu cariad at ddarllen, a chymryd balchder yn eu gwaith.

Tiddlers Wraparound, Gofal Plant

Nifer o staff a gefnogwyd: 2


Cylch meithrin cyfrwng Saesneg a gyllidir nas cynhelir yw Tiddlers Wraparound yn Trethomas, Caerffili, ar gyfer plant 2-4 ped. Mae ganddo le i 39 o blant gan gynnwys Dechrau'n Deg, addysg gynnar, a Lleoedd a Gynorthwyr.

Diolch i gyllid y ddwy raglen mae aelod ychwanegol o staff wedi cael ei gyflogi nad yw'n cael ei gyfrif ar gyfer cymarebau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r aelod hwn o staff wedi dilyn hyfforddiant COMIT (tîm lleferydd, iaith a chyfathrebu Torfaen) a Hana SLC, ac mae'n arwain grwp bach i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r ymarferydd newydd wedi elwa o ran hyder a gallu i gefnogi dysgwyr. Mae'n adnabod anghenion a mesurau penodol, ac yn asesu cynnydd ar lefel unigolyn. Mae gweithio gyda theuluoedd yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau parhad cynnydd. Yn sgil hyn mae bron bob dysgwr a adnabwyd ac a gefnogwyd wedi dangos gwelliant yn eu lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Ysgol Tir Morfa, Ysgol Arbennig

Nifer o staff a gefnogwyd: 1 athro a 4 Cynorthwydd Addysgu.



Ysgol Arbennig yn y Rhyl, Sir Ddinbych, yw Ysgol Tir Morfa, sydd ar gyfer dysgwyr 3-19 oed.

Mae cyllid y ddwy raglen wedi cael ei ddefnyddio i dalu am athro ychwanegol i ddarparu hyfforddiant i staff ar ddygymod â newid, y rhaglen TEEACH, ac asesiadau o raglenni dysgu unigol. Mae un cynorthwydd addysgu yn cyflwyno cymorth ychwanegol ar gyfer ymyraethau unigol a gwaith grŵp. Mae cynorthwydd addysgu graddfa 6 yn helpu gydag anghenion cyfathrebu dysgwyr ar draws pob grŵp blwyddyn trwy helpu a hyfforddi staff yr ysgol sy'n gweithio gyda dysgwyr wrth ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu. Mae cynorthwydd addysg gradd 6 arall yn cynllunio ac yn cyflwyno therapi adlam i ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu lluosog a dwys (PMLD). Er mwyn targedu dysgwyr o ddatblygu sgiliau echddygol bras, iechyd corfforol, sgiliau cymdeithasol, a gwella iechyd meddwl a llesiant, mae 34 o feiciau llyffant wedi cael eu hariannu. Ategir hyn gan iPad i roi mynediad at achredu beicio i ddysgwyr 14-19 oed. Mae'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi ariannu staff cyflenwi i ganiatáu amser ar gyfer paratoi a chynllunio'r achrediad beicio.

Mae gweithredu ymyraethau wedi gofyn am gydgysylltu adnoddau ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau ELSA, Tymhorau Twf, therapi llunio a siarad, therapi sŵn, therapi Lego. Mae dysgwyr ag anawsterau lluosog a dwyd wedi cael eu cefnogi â therapi profedigaeth, colled a galar, cydnerthedd ffrindiau, dygmod â thrawma, a rhianta Solihull.

Mae sgilliau digidol wedi cael eu hadeiladu wrth ddefnyddio meddalwedd ar gyfer dylunio graffig, golygu fideo, datblygu gwefannau, a ffotograffiaeth, Mae'r grantiau wedi galluogi llyfrgell newydd 'Y Sied Ddarllen' sy'n hyrwyddo datblygiad darllen a llythrennedd dysgwyr. Mae adnoddau hefyd yn darparu cyfleoedd sgiliau a phrofiad i ddysgwyr 14-19 oed gyda siop flodau, siop ail law, trwsio a gwasanaethu beiciau, a chaffi sy'n cael ei redeg gan ddysgwyr.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Cyllid a dderbyniwyd: £47,161

Nifer o staff a gefnogwyd: 8



Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghroesyceiliog, Sir Gaerfyrddin, ac iddi 910 o ddisgyblion yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Mae ei chyfradd gyfartalog o brydau ysgol am ddim yn 4.4 y cant. Mae gan 6 y cant o'r dysgwyr Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol, 1.9 y cant gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac mae gan 1.1 y cant ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.⁴¹

Mae'r cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi creu capasiti ychwanegol sydd wedi galluogi grwpiau targed llai yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer pynciau craidd. Mae athrawon pynciau penodol yn gallu gweithio gan ganolbwyntio ar fwy o ddysgwyr unigol. Mae ymyrraeth llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi gweithio gyda dysgwyr targed fel unigolion a grwpiau y tu allan i amser rheolaidd dosbarth. Mae llesiant wedi bod yn bwyslais pwysig gyda llawer o oriau o waith yn ofynnol gan benaethiaid blwyddyn a swyddogion lles. Maent wedi treulio amser gyda dysgwyr a'u teuluoedd i'w cael i ailafael mewn addysg ar ôl y cyfnod clo.

Mae llwyddiannau sylweddol wedi bod gyda llesiant ac ailafael mewn dysgu. Mae cynnydd academiaidd wedi cael ei wneud gan ddysgwyr yn sgil ymyrraethau a wnaed yn bosibl trwy grant y rhaglen. Mae pob dysgwr wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlaidd gan fod capasiti ychwanegol wedi golygu bod clybiau digonol yn cael eu rhedeg yn wythnosol.

⁴¹ PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Cyllid a dderbyniwyd: £233,133

Nifer o staff a gefnogwyd: 20, gan gynnwys 2 o athrawon amser llaw.



Ysgol gyfun gyfrwng Cymraeg yn y Coed Duon, sir Caerffili, yw Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ac mae ganddi 1,810 o ddysgwyr. Mae ei chyfradd gyfartalog o brydau ysgol am ddim yn 15.1 y cant. Mae gan 13.1 y cant o ddysgwyr Gynllun Gweithredu gan yr Ysgol, 6.5 y cant gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac mae gan 1.2 y cant ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.⁴² Mae capasiti ychwanegol yn sgil y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi gweithio gyda dysgwyr i gefnogi llesiant trwy hyfforddiant a chymorth emosiynol. Mae dysgwyr wedi cael eu helpu i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol, a pharodwydd i ddysgu. Mae cymorth academiaidd wedi cael ei ddarparu i bob grwp blwyddyn ym meysydd allweddol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi elwa'n fawr o'r capasiti ychwanegol i'w paratoi ar gyfer arholiadau. Mae cynnydd mawr wedi bod yn ymrwymiad dysgwyr at ddysgu cyfunol gyda bron bob dysgwr a oedd yn achosi'r mwyaf o bryder ynghylch ennyn eu gweithgarwch yn ymuno â dysgu o bell yn dilyn y cyfnodau cymorth. Mae llesiant dysgwyr wedi gwella ac mae lefelau cyflawniad mewn arholiadau wedi cael eu cynnal. Mae'r capasiti ychwanegol wedi galluogi'r ysgol ymhellach i baratoi'n well ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

⁴² PLASC 2021/22 [Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol \(disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd\) \(llyw.cymru\)](#)

Atodiad B Cwestiynau ymchwil y gwerthusiad

Nod: Cyflawni adolygiad llenyddiaeth, gan adeiladu ar adolygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i nodi'r hyn sy'n hysbys ynghylch beth sy'n gweithio mewn adferiad a dibyniaethau gyda phecynnau cymorth eraill ar gyfer ysgolion a gofal plant

- Beth yw'r negeseuon allweddol mewn llenyddiaeth berthnasol ddiweddar ynghylch dulliau effeithiol mewn ysgolion (meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig) a lleoliadau gofal plant i helpu adfer dysgu ar ôl tarfu arno, gan gynnwys yr hyn a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol?
- Sut mae gwledydd eraill sy'n debyg i Gymru wedi ymateb i'r her, yn enwedig Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon? Pa lefel o fuddsoddiad sydd wedi / sydd yn cael ei gwneud? Ar ba lefelau o'r system mae cynllunio'r ymyrraeth wedi digwydd (ysgol, rhanbarth, llywodraeth?) Ar ba dystiolaeth y seiliwyd yr ymyrraethau? Pa fath o fonitro a gwerthuso sydd wedi bod ar waith a beth mae wedi ei ganfod?

Nod: Mynegi disgwyliadau ar sail tystiolaeth ynghylch sut y bydd y ddwy Raglen yn helpu ysgolion/leoliadau gofal plant a dysgwyr i adfer a'r tybiaethau (gan gynnwys rhwystrau a hwyluswyr) sy'n sail iddynt i helpu monitro a gwerthuso a chynllunio adferiad yn y dyfodol.

- Beth yw'r theori newid sy'n sail i'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau? Beth yw'r tybiaethau cyffredinol a phenodol a'r dystiolaeth y tu i'r rhaglen a sut y bydd mewnbynnau a gweithgareddau yn cynhyrchu allbynnau, canlyniadau ac effeithiau?
- Beth yw'r cysylltiadau a'r dibyniaethau rhwng y rhaglen a phecynnau cymorth eraill a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac eraill?

Nod: Dysgu oddi wrth weithredu'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a thystiolaeth gynnar am ei chyrhaeddiad a'i heffeithiolrwydd

- Sut mae awdurdodau lleol wedi dosbarthu'r cyllid i ysgolion/lleoliadau gofal plant?
- O ran cymorth i leoliadau gofal plant, a aeth awdurdodau lleol ati mewn modd mwy strategol i gefnogi neu drosglwyddo arian yn uniongyrchol i leoliadau?
- Pa gyngor a roddodd awdurdodau lleol i leoliadau ar ddefnyddio'r arian?
- Sut mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio gan gonsortia rhanbarthol a beth oedd effaith hynny? I ba raddau y cafodd rhaglenni a gweithgareddau cymorth dysgu/addysgu a oedd yn bod eisoes eu trosoli i hybu effeithiolrwydd y rhaglen?
- Pa ran wnaeth partneriaid eraill ei chwarae wrth hyrwyddo'r cynllun, gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg, Gofal Cymdeithasol Cymru, a Cwlwm?
- Sut mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio gan ysgolion/lleoliadau gofal plant? Sut mae'r ysgolion/lleoliadau gofal plant wedi penderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid – pa wybodaeth am eu dysgwyr a grwpiau/ffactorau eraill a wnaethant ei ystyried, a sut?
- I ba raddau mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithreddau y mae'n hysbys eu bod yn effeithiol (o'r sail dystiolaeth sy'n bod eisoes)? Pa mor dda wnaeth dysgwyr ymateb i'r cymorth ychwanegol a gynigiwyd a beth oedd yr hwyluswyr a'r rhwystrau i ddewisiadau'r ysgolion/lleoliadau gofal plant o ran defnyddio'r cyllid ac ennyn diddordeb dysgwyr?
- Faint o gapasiti ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu a sicrhawyd? A oedd unrhyw rwystrau neu hwyluswyr wrth geisio capasiti ychwanegol? Sawl swydd ychwanegol? A oedd cyflenwad da o athrawon / a oeddent yn hawdd eu recriwtio a'u

cyflogi i weithio law yn llaw â thimau staff? Beth arall y defnyddiodd ysgolion/lleoliadau gofal plant y cyllid i'w brynu?

- I ba raddau wnaeth y rhaglen gyrraedd grwpiau blaenoriaeth o ddysgwyr a bod o fudd iddynt?
- I ba raddau y gwnaeth y rhaglen gyrraedd a bod o fudd i grwpiau o ddysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) – a wnaeth unrhyw grwpiau elwa mewn modd anghymesur ac a oedd unrhyw grwpiau yn llai abl i ymwneud â'r rhaglen? Os felly, sut a pham?
- Pa mor effeithiol oedd y cymorth a ddarparwyd, o ganlyniad i'r rhaglen, ar gyfer y canlynol: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol; datblygu sgiliau dysgu annibynnol, a; thiwtora dysgwyr a oedd wedi ymddieithrio?
- A wnaeth y rhaglen, wrth gael ei gweithredu, gyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng lleihau biwrocratiaeth a sicrhau tryloywder?
- I ba raddau y teimlwyd bod egwyddorion y rhaglen o hyblygrwydd ar gyfer adnabod plant/pobl ifanc a chynllun y cymorth yn addas? A oedd ysgolion/lleoliadau gofal plant yn teimlo'u bod yn cael digon o wybodaeth ynghylch beth oedd y posibilïadau a'u bod mewn sefyllfa i wneud y penderfyniadau roedd eu hangen? O oedd y broses gadarnhau yn ymarferol ac effeithiol (gan gynnwys i lywodraethwyr?) A oedd partneriaid yn teimlo bod y rôl a chwaraewyd gan Lywodraeth Cymru yn addas?
- A oedd pob ysgol/lleoliad gofal plant yn gallu darparu'r cymorth roedd ei angen i ddysgwyr? Os na, pam ddim? A oedd patrymau'n dod i'r amlwg ymysg ysgolion/lleoliadau gofal plant â gwahanol nodweddion o ran y defnydd o gyllid y rhaglen a'i effeithiolrwydd?
- Beth oedd yr enghreifftiau o gydweithio da sydd wedi digwydd yn sgil y rhaglen ar lefelau rhanbarthol, awdurdod lleol neu

ysgol/lleoliad gofal plant? Beth ellid ei wneud yn y dyfodol i hwyluso cydweithio mwy effeithiol rhwng rhaglenni a'i gilydd?

- Pa dulliau o ddefnyddio'r cyllid oedd yn cael fwyaf o effaith ac yr ystyriwyd eu bod yn arferion da?
- A oedd gwahaniaethau daearyddol yn y graddau y profodd y cyllid i fod yn ddigonol?
- I ba raddau y gellir asesu gwerth am arian ac i ba raddau y cyflawnwyd hyn? Beth oedd gwerth ychwanegol y rhaglen?
- I ba raddau wnaeth y rhaglen gyflawni ei phrif ddibenion: darparu cymorth dros dros i ddysgwyr cohortau â blaenoriaeth, eu galluogi i ailgynefino ag ysgol/dysgu, symud ymlaen ac ailadeiladu hyder a gallu dysgu?
- Beth all lleoliadau blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol ei ddysgu oddi wrth ei gilydd o ran beth sy'n gweithio (yn enwedig rhwng lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir)?
- Beth yw'r gwersi ar gyfer y dyfodol? Pa newidiadau mewn dull a fyddai'n peri i raglenni yn y dyfodol fod yn fwy effeithiol a chael mwy o effaith?

Nod: Deall pa gymorth pellach fydd ei angen

- Beth ellir ei ddysgu oddi wrth weithredu'r rhaglen a thystiolaeth o'i heffeithiau cynnar ar gyfer cynllunio rhaglenni cysylltiedig a ffyrdd o weithio gyda sefydliadau partner yn y dyfodol/
- Pa agweddau o'r rhaglen y dylid eu blaenoriaethu i'w parhau a pham?

Nod: Deall yr elfennau allweddol y bydd angen i ddull monitro a gwerthuso yn y dyfodol eu cynnwys

- Beth yw'r elfennau allweddol sydd angen i ddull monitro a gwerthuso yn y dyfodol eu cynnwys er mwyn cyflawni dull systematig o asesu anghenion, dyrannu adnoddau a deall effeithiolrwydd ac effeithiau'r rhaglen?

Atodiad C: Arolwg monitro

- 1) Enw'r Ysgol
- 2) Math o Ysgol
 - a. Cynradd
 - b. Uwchradd
 - c. Pob oed
 - d. Ysgol arbennig
 - e. Uned Cyfeirio Disgyblion
 - f. Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- 3) Dewiswch y disgrifiad agosaf am iaith eich ysgol
 - a. Dwyieithog neu ddwy ffrwd
 - b. Cyfrwng Saesneg
 - c. Cyfrwng Cymraeg
- 4) Dewiswch eich rhanbarth/Awdurdod Lleol
 - a. CSC
 - b. EAS
 - c. GWE
 - d. Partneriaeth y Canolbarth
 - e. Castell-nedd Port Talbot
 - f. Partneriaeth
- 5) Enw cyswllt
- 6) Cyfeiriad e-bost cyswllt
- 7) Nifer o athrawon a gyflogir drwy'r grant Recriwtio Adfer a Chodi Safonau. Ysgrifennwch eich ateb fel cyfwerth ag amser llawn (FTE), ee byddai rhywun sy'n gweithio hanner amser yn 0.5 etc.
- 8) Nifer o staff cymorth a gyflogir (gan gynnwys Cynorthwywyr Addysgu, Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Swyddog Cymorth Dysgu etc) trwy'r grant. Ysgrifennwch eich ateb fel cyfwerth ag amser llawn, ee byddai rhywun sy'n gweithio hanner amser yn 0.5 etc

- 9) Nifer o staff eraill nas cynhwyswyd uchod a gyflogwyd drwy'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Ysgrifennwch eich ateb fel cyfwerth ag amser llawn, ee byddai rhywun sy'n gweithio hanner amser yn 0.5 etc.
- 10) Nodwch fanylion y capasiti a sicrhawyd gan sefydliad allanol na chyfrifir amdanol yn yr ymatebion uchod, ee nifer o bobl, faint o amser, swyddogaeth a gyflawnir etc.
- 11) Ticiwch bob un o'r ymyraethau sydd wedi cael eu defnyddio yn eich ysgol fel rhan o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.
- a. Cymorth llesiant
 - b. Cymorth symbylu dysgwyr
 - c. Sgiliau dysgu
 - d. Paratoi at arholiadau
 - e. Tiwtora
 - f. Cymorth Llythrennedd
 - g. Cymorth Llafaredd
 - h. Cymorth Rhifedd
 - i. Cymorth sgiliau digidol
 - j. Paratoi pontio rhwng ysgolion neu gyfnodau
 - k. Hyfforddi a mentora
 - l. Dod ag asiantaethau allanol i mewn
 - m. Cymorth i siaradwyr ieithoedd heblaw'r cyfrwng dysgu
 - n. Arall (fel y nodir uchod)
- 12) Graddiwch bwysigrwydd pob ymyrraeth lle bo 1 y pwysicaf a 5 y lleiaf pwysig
- a. Cymorth llesiant
 - b. Cymorth symbylu dysgwyr
 - c. Sgiliau dysgu
 - d. Paratoi at arholiadau
 - e. Tiwtora
 - f. Cymorth Llythrennedd
 - g. Cymorth Llafaredd
 - h. Cymorth Rhifedd
 - i. Cymorth sgiliau digidol
 - j. Paratoi pontio rhwng ysgolion neu gyfnodau
 - k. Hyfforddi a mentora

- l. Dod ag asiantaethau allanol i mewn
- m. Cymorth i siaradwyr ieithoedd heblaw'r cyfrwng dysgu
- n. Arall (fel y nodir uchod)

13) Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar unrhyw agwedd o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, cofnodwch hwy isod. Efallai yr hoffech ystyried yr effaith/lles mae ymyraethau'r rhaglen wedi eu cael ar eich ysgol a dysgwyr.

14) Rydym yn ceisio cysylltu ag ysgolion i gymryd rhan mewn ymchwil pellach ynghylch Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Os hoffech chi gymryd rhan, byddwch cystal â thicio'r blwch isod.